# Cyfrifon Blynyddol

# Cyngor Cenedlaethol Cymru
# dros Addysg a Hyfforddiant

## Ar gyfer

## Y cyfnod yn diweddu 31 Mawrth 2002

| | |
|---|---|
| Rhagair | 3 |
| Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr | 9 |
| Datganiad am reolaeth fewnol | 10 |
| Tystysgrif Archwiliwr Cyffredinol Cymru i Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru | 12 |
| Cyfrif incwm a gwariant cyfunol | 14 |
| Mantolen gyfunol | 15 |
| Datganiad llif arian cyfunol | 16 |
| Datganiad o gyfanswm yr enillion a cholledion cydnabyddedig | 17 |
| Nodyn o ganlyniadau costau hanesyddol | 17 |
| Nodiadau | 18 |
| Adroddiad Archwiliwr Cyffredinol Cymru | 39 |

# Rhagair

Sefydlwyd y Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (y Cyngor) yn unol â Deddf Dysg a Sgiliau 2000. Cafodd Gydsyniad Brenhinol ar 28 Gorffennaf 2000. Noddir y Cyngor gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (NAW) a chafwyd quorate ar 10 Hydref 2000, pan benodwyd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr. Mae'r datganiadau ariannol hyn am y cyfnod o 10 Hydref 2000 i 31 Mawrth 2002.

Ar 1 Ebrill 2001, mabwysiadodd y Cyngor fwyafrif swyddogaethau'r Cyngor Ariannu Addysg Bellach i Gymru (FEFCW) ac elfennau arwyddocaol oedd yn cael eu cyflawni ynghynt gan y pedwar Cyngor Hyfforddiant a Menter i Gymru (TECS). Roedd rheolaeth cwmniau TEC ynghyd â'r Cyngor TECS Cymru hefyd yn trosglwyddo i'r Cyngor Cenedlaethol ar y diwrnod hwnnw. Mae gan y Cyngor bŵerau a dyletswyddau i ariannu addysg a hyfforddiant ôl 16 yng Nghymru (heblaw am addysg uwch) ac o 1 Ebrill 2002, dosbarthiadau chwech mewn ysgolion. Roedd y FEFCW yn peidio â bod ar 31 Mawrth 2001 a throsglwyddwyd ei holl asedau a'i rwymedigaethau i'r Cyngor fel y mwyafrif o asedau sefydlog TECS.

Paratowyd y cyfrifon hyn yn unol â chyfarwyddyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â pharagraff 14(2) trefnlen 4 Deddf Dysg a Sgiliau 2000 ac maen nhw'n cydymffurfio â hyn. Gellir cael copi o'r cyfarwyddyd gan y Cyngor. Cyflwynir y cyfrifon ar ran y "Cyngor" a'r "Grŵp" ac maen nhw'n cynnwys cydgyfnerthiad o gyfrifon y Cyngor a'r pedwar cwmni TEC a Chyngor TECS Cymru.

Paratoir y cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Cwmniau a Safonau Cyfrifydda a gyhoeddwyd neu a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifydda, hyd y mae'r gofynion hyn yn briodol.

**Cyfrifoldebau Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant**

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am sicrhau darpariaeth addysg a hyfforddiant ôl 16 ac am weinyddu arian sydd ar gael gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill. O wneud hyn, rhaid iddo sicrhau system gost-effeithiol o'r safon uchaf sy'n chwarae ei rhan i gyflawni gofynion cymdeithasol ac economaidd Cymru.

Cyfrifoldeb Cyngor Ariannu Addysg Uwch i Gymru (HEFCW) yw ariannu Addysg Uwch. Mae'r ddau sefydliad arwahân yn gweithredu o dan yr enw ymbarel Addysg a Dysg yng Nghymru (ELWa) ac yn rhannu gwasanaethau un tîm rheoli ar y cyd gyda chefnogaeth staff sy'n gweithio i naill ai un neu'r ddau gyngor.

**Adolygiad o weithgareddau a datblygiadau**

Diffyg y Grŵp am y cyfnod oedd £ 9,399,000. Cynlluniwyd gwariant y Cyngor ar sail yr arian oedd ar gael iddo drwy dderbyniadau grantiau blynyddol mewn cymorthdal a ffynonellau incwm eraill. Mae'r datganiadau ariannol yn cofnodi diffyg gweithredol o ganlyniad i amseru arian darparwyr hyfforddiant preifat a cholegau addysg bellach a chostau unwaith yn unig rhaglen ail strwythuro'r Cyngor. Mae grant mewn arian cymorthdal i dalu credydwyr ar ddiwedd blwyddyn wedi'i nodi yn y flwyddyn ariannol ddilynol. Mae rheolau cyfrifydda'r Llywodraeth yn nacâu rhagweld yr incwm hwn sydd felly'n achosi diffyg yn y balans. Cyfanswm y gwariant ar asedau sefydlog oedd £1,106,000 yn ystod y flwyddyn.

Mae'r datganiadau hyn am gyfnod cyntaf adrodd yn ôl y Cyngor.

**Gweledigaeth** Gweledigaeth y Cyngor ar gyfer dysg yng Nghymru yw:

***Mynnwch Elwa ar Ddysg***

Bydd llwyddo i wireddu'r weledigaeth hon yn golygu bod:

- pob person yng Nghymru â'r *sgiliau hanfodol* angenrheidiol ar gyfer gwaith, y cartref a hamdden;
- pob person yng Nghymru wedi'i symbylu i *ddysgu gydol oes* ac yn cael y cyfle i ddysgu mewn modd sy'n addas i'w gofynion;
- y *wybodaeth* sy'n bodoli ac sy'n cael ei chreu o fewn Cymru, yn cael ei defnyddio i greu economi llwyddiannus, cynaladwy sy'n ffyniannus ac yn gynhwysol;
- pob *busnes* yng Nghymru yn gwerthfawrogi manteision dysg, yn buddsoddi'n barhaus i ddatblygu ei weithlu ac yn gallu cael yr hyfforddiant angenrheidiol i symud ymlaen; a

## **Rhagair** *(parhad)*

- bod pob *cymuned* yng Nghymru'n gwerthfawrogi dysg fel modd i alluogi pawb i chwarae rôl actif mewn cymdeithas.
- Cred y Cyngor y gellir llwyddo drwy fabwysiadu egwyddorion ar y cyd a gweithio mewn partneriaeth.

***Mabwysiadu Egwyddorion ar y Cyd***

Os ydym am gyflawni'r weledigaeth ar y cyd, credwn fod yn rhaid i ddysg:

- fod yn ddysgwr-ganolog;
- fod yn hyblyg ac yn atebol i angen unigolyn, busnes a chymuned;
- fod yn hygyrch i bawb gyda chydraddoldeb parch rhwng dysg galwedigaethol ac academaidd;
- fod yn atebol i anghenion cymdeithasol ac economaidd Cymru;
- fod wedi'i feincnodi yn erbyn y gorau yn y byd;
- ro hyder i ddeall a rheoli risg;
- symbylu dyfeisgarwch, creadigrwydd ac entrepeneuriaeth; a
- galluogi pobl i gyfrannu fel dinasyddion actif tuag at gymunedau a diwylliannau amrywiol Cymru.

***Gweithio mewn Partneriaeth***

Mae gwaith y Cyngor yn hanfodol i lwyddiant Cymru yn y dyfodol ond ni fydd yn ddigon ar ei ben ei hun. Credwn fod yn rhaid i bawb sy'n ymwneud â darparu dysg:

- ymrwymo eu hunain i'r weledigaeth ar y cyd;
- fabwysiadu'r egwyddorion;
- fod yn barod i newid; a
- dangos ymddiriedaeth o'r ddwy ochr a pharchu cyfraniadau eraill.

***Gweithio mewn Partneriaeth***

Mae gwaith y Cyngor yn hanfodol i lwyddiant Cymru yn y dyfodol ond ni fydd yn ddigon ar ei ben ei hun. Credwn fod yn rhaid i bawb sy'n ymwneud â darparu dysg:

- ymrwymo eu hunain i'r weledigaeth ar y cyd;
- fabwysiadu'r egwyddorion;
- fod yn barod i newid; a
- dangos ymddiriedaeth o'r ddwy ochr a pharchu cyfraniadau eraill.

Mae Cymru angen partneriaethau gyda gweledigaeth, meddwl a gweithredu ar y cyd a fydd yn herio ymagweddau traddodiadol at ddatblygiad pobl. Nid yw cydweithio llwyddiannus bob amser yn cael ei wireddu ond credwn fod hyn yn hanfodol. Byddwn yn gweithio'n galed i gyflawni datblygiad a gweithredu polisi cydlynol.

**Bwriad a rôl**

Diffinir rôl arbennig y Cyngor i gyflawni'r weledigaeth '**Mynnwch Elwa ar Ddysg**' yn ein bwriad sef:

Hybu dysgu gydol oes a darparu cyfleoedd dysg o safon byd-eang i bawb yng Nghymru i gyflawni eu potensial.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am *adleoliad effeithiol* arian NAW ar gyfer dysg ôl 16 (ag eithrio addysg uwch) a bydd yn sicrhau bod yr holl weithgareddau sy'n cael eu datblygu, eu cefnogi a'u hariannu gennym yn unol â'n bwriad. Bydd hyn yn gofyn am arfarniad a gwaith ymchwil cadarn.

## **Rhagair** *(parhad)*

Byddwn yn *cynllunio ac yn buddsoddi mewn fframwaith dysg* (y bobl, yr adeiladau a'r amgylchedd dysg – mewn ysgolion, colegau, busnesau a chymunedau). Byddwn yn sicrhau bod cydraddoldeb parch i ddysg academaidd a galwedigaethol. Byddwn yn disgwyl bod yr holl ddarpariaeth ddysg a ariannir gennym o'r safon uchaf ac yn rhoi'r addysg a'r sgiliau priodol i bobl Cymru a fydd yn eu galluogi i gyflawni eu potensial llawn yn y cartref, yn y gwaith ac yn eu cymunedau.

Byddwn yn *datblygu ac yn hybu'r diwylliant dysg* yng Nghymru. Bydd ein holl weithgareddau'n cael eu tanategu gan anghenion dysg ein cwsmeriaid. Byddwn yn cynnal peilot ac yn datblygu dulliau newydd i ehangu a chynyddu cyfranogiad mewn dysg.

Byddwn yn darparu *arweiniad ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl 16* (ag eithrio addysg uwch). Byddwn yn gweithio i gefnogi blaenoriaethau'r NAW gan gynnwys ei uchelgais i wneud system ddysg Cymru yn un o'r rhai gorau yn y byd. I wneud hyn, rhaid i ni ddatblygu dealltwriaeth ar y cyd o'r hyn sy'n creu rhagoriaeth ym maes dysg a sut y gallwn gyflawni'r safon hwnnw. Rhaid i ni weithio mewn partneriaeth gydag eraill ac ar fyrder ar yr agwedd bwysig hon o'n bwriad.

Byddwn yn sicrhau ein bod yn *cyfannu, nid yn dyblygu,* darpariaeth y sector preifat a gwirfoddol sy'n annibynnol o arian cyhoeddus. Byddwn ni'n anelu at gynyddu buddsoddiad preifat a chyhoeddus arall mewn dysg.

**Prif elfennau ein strategaeth**

***Ein Nodau***

Mae ein Strategaeth Gorfforaethol yn disgrifio ein pum gôl, pob un yr un mor bwysig. Maen nhw i gyd yn rhyng-ddibynnol yn y pen draw a rhaid i ni lwyddo gyda phob un os ydym am gyflawni ein gweledigaeth.

*Sgiliau hanfodol* **–** drwy gydol eu bywydau, rhaid i bawb yng Nghymru allu datblygu a chymhwyso'r sgiliau hanfodol fel cyfathrebu, creu tîm, datrys problemau a'r gallu i ddysgu.

*Creu dysgwyr gydol oes* – mae angen annog llawer mwy o bobl i ymgymryd â dysgu gydol oes ac, i gyflawni hyn, maen nhw angen dulliau newydd a gwell i gael mynediad i ddysg. Dylai pobl allu symud yn naturiol o un cyfle dysg i un arall drwy gydol eu bywydau.

*Datblygu'r gallu i gymhwyso gwybodaeth* – rhaid i ni fod yn fwy effeithiol wrth weithio gyda'n gilydd i ddefnyddio'r wybodaeth sy'n bodoli o fewn busnesau, sefydliadau academaidd a mudiadau eraill yng Nghymru ac i sicrhau ein bod yn cael mynediad sydyn a hawdd i wybodaeth yn fyd-eang.

*Sgiliau ar gyfer busnes* – mae busnesau angen sgiliau ar bob lefel ac ym mhob disgyblaeth i'w helpu i ddatblygu. Mae'n rhaid iddyn nhw fuddsoddi'n barhaus i ddatblygu eu gweithlu. Dylid annog busnesau a gweithwyr unigol i geisio sgiliau newydd a rhaid i ni ddarparu dulliau dyfeisgar o roi'r sgiliau hyn iddyn nhw. Rhaid i ni annog darparwyr dysg a diwydiant i gydweithio'n agosach i gynllunio ar gyfer anghenion y dyfodol.

*Cymunedau dysg* – mae pobl o fewn ein cymunedau angen y gallu i gaffael sgiliau newydd ac i fod yn ddinasyddion actif. Mae hyn yn hanfodol os ydym am gael cymdeithas sy'n gwerthfawrogi a chynnwys pawb ac yn ddiwylliannol gyfoethog ac amrywiol.

***Themau Croesdorri***

Mae ein Strategaeth Gorfforaethol hefyd yn amlinellu ein hymrwymniad i'n pedair thema croesdorri **cynaladwyedd, cyfle cyfartal, dwyieithrwydd** a **chynhwysiad cymdeithasol** a'n dealltwriaeth o'r rhain. Mae'r rhain yn ganolog i'n strategaeth a byddwn yn sicrhau eu bod yn rhan annatod o'n gweithgareddau i gyd.

**Gorchestion yn 2001-2002**

Roedd y Cyngor yn etifeddu cynlluniau gweithredol 2001-2002 y mudiadau oedd yn ei ragflaenu, y pedwar cwmni Cyngor Hyfforddiant a Menter a'r FEFCW. Arwyddwyd y mwyafrif o'r cytundebau i ddarparu dysg am y cyfnod hwn cyn Ebrill 2001 pan oedd y Cyngor yn weithredol. Er waetha'r ffaith bod y rhan fwyaf o wariant rhaglenni wedi'i benderfynu'n barod, mae'r Cyngor wedi dechrau llunio ei weithgareddau yn unol â'i uchelgeisiau ar gyfer addysg a dysg yng Nghymru.

## **Rhagair** *(parhad)*

Gorchestion yn ystod y flwyddyn weithredol gyntaf:

***Canlyniadau***

Cyflawni perfformiad yn erbyn y rhan fwyaf o dargedau 2001-2002 a etifeddwyd gan ein rhagflaenwyr, gan gynnwys cefnogaeth i:

- 70,000 o fyfyrwyr (cyfateb i lawn amser) mewn addysg bellach;
- 25,000 o bobl ifanc oedd yn ymgymryd â hyfforddiant galwedigaethol;
- 38,000 o oedolion mewn hyfforddiant; a
- 4,000 o fusnesau gyda datblygiad sgiliau.
- i gyflawni anghenion ardaloedd gwledig yn dilyn yr achos o Glwy'r Traed a'r Genau; ac
- i gyflawni anghenion unigolion a chymunedau a effeithiwyd gan Corus a diswyddiadau eraill.

***Arfarnu a Gwaith Ymchwil***

Mae'r Cyngor wedi:

- datblygu strategaeth arfarnu ac wedi dechrau arfarnu ac ail lunio rhaglenni a etifeddwyd;
- dechrau adolygiad agored o'n systemau ariannu a etifeddwyd; a
- dechrau cynllunio ar gyfer arolwg Sgiliau'r Dyfodol yng Nghymru 2003 a ddefnyddir fel sail tystiolaeth ar gyfer sgiliau'r boblogaeth a'r gweithlu.

***Strategaeth a Datblygiad Polisi***

Mae'r Cyngor wedi:

- ymgymryd â'r broses ymgynghori strategaeth fwyaf gynhwysfawr erioed yng Nghymru i lunio polisiau a chynlluniau'r Cyngor at y dyfodol;
- datblygu nifer o brojectau mewn cymunedau a busnesau wedi'u hanelu at ehangu cyfranogiad mewn dysg;
- dechrau gwaith manwl ar ddatblygu strategaethau dysg effeithiol, yn arbennig e-dysg a strategaeth ar gyfer dwyieithrwydd; a
- datblygu a sefydlu peilotau ar gyfer rhwydweithiau rhagoriaeth dysg.

***Gweithgaredd Partneriaeth***

Mae'r Cyngor wedi:

- creu rhaglen o weithgareddau ar y cyd gyda'r Cyngor Ariannu Addysg Uwch i Gymru gan gynnwys lleoli'r Gronfa Ymelwad Gwybodaeth;
- sefydlu memorandwm o ddealltwriaeth a chynlluniau gweithredu gydag Awdurdod Datblygu Cymru, Gyrfâu Cymru a'r Gwasanaeth Cyflogaeth ac wedi dechrau datblygu trefniadau partneriaeth gyda Llywodraeth Leol Cymru, Cyngor y Celfyddydau Cymru a'r Sector Gwirfoddol, gan osod y sylfaen ar gyfer partneriaethau tymor hir i lwyddo ac
- wedi gweithio gyda'r Consortia Addysg a Hyfforddiant y Gymuned i ddatblygu blaenoriaethau gweithredu rhanbarthol a lleol fel yr adlewyrchwyd yn y datganiad rhanbarthol o anghenion a blaenoriaethau ac i ddatblygu ymagweddau newydd i wella ansawdd ac ehangu cyfranogiad.

***Datblygiadau Trefniadol***

Mae'r Cyngor wedi:

- sefydlu pedwar pwyllgor rhanbarth i arwain ein gwaith yn lleol ac yn rhanbarthol;
- cael ei gydnabod fel Buddsoddwr mewn Pobl;

## Rhagair *(parhad)*

- cwblhau arfarniad o bob swydd o fewn y Cyngor ac wedi datblygu un set o amodau a thelerau ar draws y sefydliad i gymryd lle'r pum set a etifeddwyd, gan gynnwys cynlluniau am gyflog cyfartal; ac wedi
- dechrau ail lunio ein sefydliad.

**Cyfranogiad Cyflogai**

Mae cyfarfodydd staff a seminarau rheolaidd yn sicrhau cyfathrebu mewnol da ac yn rhoi cyfleoedd i staff gyfrannu at waith y Cyngor. Mae'r Cyngor Gwaith lle gall cynrychiolwyr godi materion sy'n achosi pryder i staff, yn cyfarfod yn rheolaidd.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddatblygu ei Bolisi Cyfle Cyfartal i sicrhau bod yr holl gyflogai'n cael eu trin yn deg, heb ystyried rhyw, oed, statws priodasol, anabledd, hil neu darddiad ethnig.

Mae polisi'r Cyngor ar recriwtio wedi'i seilio ar allu ymgeisydd i gyflawni'r swydd. Rhoddir ystyriaeth lawn a theg i geisiadau am swyddi gan bobl ag anableddau lle mae ganddynt y sgiliau a'r gallu addas i gyflawni'r swydd. Os bydd person yn cael ei wneud yn anabl yn ystod cyflogaeth, bydd y Cyngor yn gwneud pob ymdrech i gynnal cyflogaeth ac i sicrhau bod ail hyfforddi digonol ar gael a chyfleusterau datblygu gyrfa.

**Côd tâl prydlon y CBI**

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo'n llwyr i dalu biliau ei gyflenwyr yn brydlon ac mae'n cefnogi Côd Tâl Prydlon Conffederasiwn Diwydiant Prydeinig. Yn anffodus, nid oedd nifer o'r systemau cyfrifydda a etifeddwyd gan y Cyngor yn gallu creu ystadegau am ganrannau'r anfonebau a dalwyd yn unol ag amodau cytundebol y cytunwyd arnyn nhw. Cyflwynwyd un system gyfrifydda newydd ar 1 Ebrill 2002 ac felly bydd ystadegau tâl prydlon ar gael yn y blynyddoedd i ddod. Fodd bynnag, o'r trafodion a broseswyd drwy'r cyn system gyfrifydda FEFCW, roedd 80% o'r anfonebau wedi'u talu yn unol â'r amodau cytundebol y cytunwyd arnynt neu lle nad oedd amodau, o fewn 30 diwrnod i gyflwyno anfoneb ddilys. Roedd yr anfonebau hyn oedd yn cynrychioli'n bennaf gwariant ailadroddus, yn cyfrif am 67% o gyfanswm gwariant y Cyngor. Ni fu'n rhaid i'r Cyngor dalu unrhyw ddirwyon oherwydd oedi cyn talu anfonebau.

**Archwilwyr**

Archwiliwyd cyfrifon y Cyngor gan yr Archwiliwr Cyffredinol i Gymru yn unol â pharagraff 14(4) trefnlen 4 Deddf Dysg a Sgiliau 2000.

**Aelodau'r Cyngor**

Roedd y bobl ganlynol yn gweithredu fel aelodau'r Cyngor yn ystod y cyfnod dan sylw:

| | |
|---|---|
| Enid Rowlands | Cadeirydd |
| Steve Martin | Prif Weithredwr |
| Dr Rita Austin | |
| Sheila Drury OBE | |
| Dr Haydn Edwards | |
| Daniel Fellows OBE | |
| Dr Tim Jones | Dirprwy Gadeirydd |
| Keith McDonogh | |
| Dr Sonia Reynolds | |
| James Gibson Watt | |
| Yr Athro Sir Adrian Webb | |
| John Davies | Penodwyd 31 Mawrth 2002 |
| Alastair Robertson | Ymddiswyddodd 27 Awst 2001 |

**Penodwyd asesydd gan y Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Richard Davies Cyfarwyddwr Addysg a Hyfforddiant, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## **Rhagair** *(parhad)*

**Pwyllgor Archwilio a Risg**

Cadeirydd Pwyllgor Archwilio a Risg y Cyngor oedd Keith McDonogh a'r aelodau oedd Dr Sonia Reynolds, Yr Athro Syr Adrian Webb a Neil Mallett

**Steve Martin**
**Prif Weithredwr a Swyddog Archwilio**
**Rhagfyr 2002**

**Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr**

Yn unol â pharagraff 14(2) trefnlen 4 Deddf Dysg a Sgiliau 2000, disgwylir i'r Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant baratoi datganiad cyfrifon am bob cyfnod ariannol ar ffurf ac yn unol â'r hyn a benderfynir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau a rhaid iddyn nhw ddangos darlun gwir a theg o faterion y Cyngor ar ddiwedd y cyfnod a'i incwm a gwariant a llif arian am y cyfnod ariannol.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, disgwylir i'r Cyngor:

- ddilyn y cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan gynnwys y gofynion cyfrifydda a dadleniad perthnasol a chymhwyso polisiau cyfrifydda addas yn gyson;
- wneud penderfyniadau a brasamcanion rhesymol;
- nodi a ydy'r safonau cyfrifydda cymwys wedi'u dilyn a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau materol yn y datganiadau ariannol;
- baratoi'r datganiadau ariannol ar sail y busnes heblaw ei bod yn anaddas gwneud hynny

Mae Swyddog Cyfrifydda'r Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi enwebu Prif Weithredwr y Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant fel y Swyddog Cyfrifydda. Gwelir ei gyfrifoldebau priodol fel Swyddog Cyfrifydda gan gynnwys y cyfrifoldeb dros berchnogaeth a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'n atebol amdanyn nhw ac am gadw cofnodion cywir, ym Memorandwm Swyddogion Cyfrifydda'r Cynulliad Cenedlaethol Cymru a gyhoeddir gan y Cynulliad Cenedlaethol.

## Datganiad am reolaeth fewnol

Fel Swyddog Cyfrifeg, mae gen i gyfrifoldeb bersonol i gadw system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyrhaeddiad polisïau, amcanion a nodau'r Cyngor gan ddiogelu ariannau cyhoeddus ac asedau eraill mae'r Cyngor wedi'u darparu i'r pwrpasau yma ar yr un pryd. Mae fy swyddogaeth a chyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifeg ar gyfer y Cyngor Cenedlaethol – ELWa wedi eu disgrifio yn y Memorandwm, *Cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifeg ASPB.*

Mae'r system rheolaeth fewnol wedi'i llunio i reoli yn hytrach na chael gwared o'r risg o fethiant i wireddu polisïau, amcanion a nodau ac, felly, nid yw'n gallu darparu sicrhad absoliwt o effeithioldeb, dim ond sicrhad rhesymol.

Am nad oes gan y Cyngor gyfnod gosod neu gyfnod cysgod effeithiol o weithio, fe fu'n rhaid datblygu fframwaith newydd o reoli yn ystod y flwyddyn. Mae dilyniant busnes wedi'i gadw drwy weithrediad rheoliadau sy'n bodoli'n barod, y mae'r fframwaith newydd wedi cymryd eu lle yn raddol bach. Mae'r newidiadau allweddol wedi cynnwys datblygiad fframwaith newydd o awdurdodau ffurfiol wedi'u dirprwyo a pharatoi rheoliadau a threfnau ariannol newydd.

Rwyf wedi mabwysiadu agwedd wedi'i seilio ar risgiau i ddatblygu fframwaith y rheolaeth. Mae hyn yn cynrychioli proses barhaus sy'n ceisio canfod y prif risgiau i gyrhaeddiad polisïau, amcanion a nodau'r Cyngor, gwerthuso natur a maint y risgiau hynny a'u rheoli nhw'n effeithiol, yn effeithlon ac mewn ffordd economaidd. Rydym wedi cymryd y camau yma i gyflwyno'r agwedd yma:

- *Canllawiau Polisi Cyfleoedd a Risgiau* ffurfiol, wedi'i aprofi gan y Cyngor, wedi'i sefydlu a'i gyhoeddi i'r staff i gyd. Mae'r rhain yn darparu agwedd gydlynol, gyson a dealladwy i reoli risgiau.
- Strwythurau trefniadol addas wedi'u sefydlu i bennu risgiau allweddol y Cyngor, i ganfod y strategaeth rheoli angenrheidiol, ac i fonitro effeithioldeb y strategaeth; a
- Chofrestr risgiau ffurfiol wedi'i sefydlu i gofnodi canlyniadau'r camau uchod ac i hybu monitro hwn gan y rheolwyr uwch a'r Cyngor.

Ar ben hynny, mae'r gweithrediadau nesaf yma wedi cychwyn er mwyn cynnwys rheoli risgiau ymhob agwedd o waith y Cyngor:

- mae prosesau corfforaethol a gweithrediadol yn cael eu paratoi fydd yn integreiddio rheoli risg a chynllunio;
- mae canllawiau rheoli project yn cael eu paratoi fydd yn cynnwys rheoli risgiau fel elfen allweddol;
- mae systemau adrodd a monitro perfformiad yn cael eu datblygu i gynnwys asesiad o effeithlonrwydd rheoli risgiau; ac
- mae gweithdai yn cael eu cynnal ar gyfer staff uwch ar *Ganllawiau Polisi*'r Cyngor, Bydd cynnwys y rhain yn cael eu lledaenu i'r staff i gyd drwy gyfarfodydd tîm.

Rwy'n disgwyl cael y trefnau sy'n angenrheidiol i weithredu'r gofynion sydd wedi eu gosod yn DAO(GEN) 13/00 yn eu lle erbyn mis Mawrth 2003.

Fel Swyddog Cyfrifeg, mae gen i'r cyfrifoldeb hefyd o adolygu effeithioldeb y system o reolaeth fewnol. Mae'r prosesau nesaf yma'n cefnogi hyn:

- mae gan y Cyngor Adran Sicrhau Risgiau sy'n gweithredu yn unol â gofynion Llawlyfr Archwiliad Mewnol y Llywodraeth a Safonau Archwiliad Mewnol y Llywodraeth; mae cynlluniau archwilio wedi eu seilio ar asesiad risg ac mae'r Pennaeth Sicrhad Risgiau yn darparu barn annibynnol ar effeithiolrwydd system fewnol rheoli'r Cyngor, a pha mor ddigonol ydyw, bob blwyddyn, ynghyd ag argymhellion ar gyfer ei gwella;

## Datganiad am reolaeth fewnol *(parhad)*

- mae gwaith yr Adran Sicrhau Risgiau yn cael ei oruchwylio gan y Pwyllgor Archwiliad a Risgiau, sy'n darparu adroddiadau'n rheolaidd i'r Cyngor am ganfyddiadau a chasgliadau'r gwaith archwilio;
- mae'r Bwrdd Strategaeth a Threfniant a Bwrdd Perfformiad y Cyngor, yn cynnwys rheolwyr uwch, yn cyfarfod yn rheolaidd i ystyried cynlluniau a chyfeiriad strategol, a pherfformiad, yn y drefn honno;
- mae'r Cyngor wedi sefydlu Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad i oruchwylio a monitro'r agweddau hyn o'r gwaith; ac
- fel Prif Weithredwr, rwy'n cynnal cyfarfodydd monitro perfformiad chwarterol gyda rheolwyr uwch.

Mae fy adolygiad o effeithioldeb system rheoli mewnol y Cyngor yn derbyn gwybodaeth gan waith yr Adran Sicrhau Risgiau, y rheolwyr gweithredol sydd â'r cyfrifoldeb am ddatblygiad a chynnal a chadw rheolyddion o fewn eu meysydd gweithredu, a gan waith archwiliwr allanol y Cyngor, Archwiliwr Cyffredinol Cymru, sy'n derbyn cefnogaeth y Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

Mae sefydliad y Cyngor yn 2001-02 wedi cynnwys newid syfaenol. Roedd rhaid datblygu fframwaith newydd o reolaeth fewnol i adlewyrchu'r newidiadau yma, i harmoneiddio trefniadau ar draws y sefydliad ac i sicrhau effeithlonderau gweithredu. Yn ystod y datblygiad yma mae'r risgiau rheoli wedi bod yn uchel ac mae gwaith Adran Sicrhau Risgiau'r Cyngor wedi'i gyfeirio i feysydd o'r risgiau uchaf.

Penwyd pryniant fel maes allweddol a chychwynwyd gweithrediadau i sefydlu rheolyddion ledled y sefydliad, yn cynnwys penodi rheolwr pryniant proffesiynol newydd a chyflwyno trefniadau prynu newydd ynghyd â darpariaeth hyfforddiant cysylltiedig ar gyfer y staff perthnasol i gyd. Yn ystod y cyfnod o newid i'r trefniadau newydd penwyd problemau gyda gosodiad a rheolaeth 21 contract. Gwnaeth y Cyngor geisiadau am gefnogaeth ôl-syllol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ond fel a nodwyd yn Adroddiad Archwiliwr Cyffredinol Cymru am y cyfrifon yma, ni roddwyd cefnogaeth oherwydd y gwariant o £ 2,243,400 i gyd sydd felly'n anarferol.

Mae gwaith yr Adran Sicrhau Risgiau wedi pennu angen hefyd am well rheolyddion mewn perthynas â phrojectau sy'n derbyn cyllid Ewropeaidd. Sefydlwyd gweithlu i gydlynu rhaglen ar gyfer gweithredu i ddelio gyda'r materion a benwyd a sefydlu, yn unol â sefydliadau partner, fframwaith rheoli mwy cadarn ar gyfer projectau yn y dyfodol.

Cynghorwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru am y materion yma ac ym mis Mai 2002 gwnaeth ei adolygiad ei hun i system reoli mewnol y Cyngor. Casgliad hwn oedd *nad oes yna wendidau amlwg ar hyn o bryd yn yr amgylchedd rheoli yn ELWa, sydd wedi ei wella'n sylweddol dros gwrs y flwyddyn ddiwethaf.* Penodd adroddiad y Cynulliad fannau lle gellid gwella rheolyddion ymhellach ac rwyf wedi derbyn, ac wedi gweithio i weithredu, yr argymhellion a gafwyd mewn perthynas â hyn.

Mae'r Cyngor Cenedlaethol – ELWa yn wynebu cyfnod o newid parhaus wrth iddo geisio darparu agenda'r Cynulliad ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-16 yng Nghymru ac, yn arbennig, wrth iddo gyflwyno system gynhwysfawr newydd ar gyfer cynllunio ac ariannu. Mae'r risgiau rheoli sy'n gysylltiedig gyda'r newid yma yn uchel ac, felly, bydd rheoli'r risgiau yma'n flaenoriaeth yn ystod gweddill 2002 a 2003.

**Steve Martin**
**Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifeg**
**20 Rhagfyr 2002**

**Tystysgrif Archwiliwr Cyffredinol Cymru i Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Rwyf yn ardystio fy mod wedi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalennau 14 i 17 yn unol â paragraff 14 (4) Atodlen 4 i Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol fel y'u diwygiwyd, a'r polisïau cyfrifo a nodwyd ar dudalennau 18 i 20.

**Priod gyfrifoldebau'r Cyngor Cenedlaethol, y Prif Weithredwr a'r Archwiliwr**

Fel y disgrifiwyd ar dudalen 9, Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant a'r Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 a chyfarwyddiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a wnaed yn ôl y gofynion hynny, ac am sicrhau cysondeb y trafodion ariannol. Mae'r Cyngor Cenedlaethol a'r Prif Weithredwr hefyd yn gyfrifol am baratoi cynnwys arall yr Adroddiad Blynyddol. Mae fy nghyfrifoldebau i, fel archwiliwr annibynnol, wedi eu pennu yn ôl statud ac wedi'u harwain gan y Bwrdd Arferion Archwilio ac arweiniad moesol y proffesiwn archwilio.

Rwyf yn adrodd fy marn ar p'un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun teg a chywir ac a ydynt wedi'u paratoi yn gywir yn unol â Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 a chyfarwyddiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a wnaed yn ôl y gofynion hynny, ac a yw'r gwariant a'r incwm ym mhob ystyr berthnasol wedi eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Rwyf hefyd yn adrodd os nad yw'r Rhagair, yn fy marn i, yn gyson â'r datganiadau ariannol, neu os nad yw'r Cyngor Cenedlaethol wedi cadw cyfrifon priodol, neu os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Rwyf yn darllen y wybodaeth arall a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol ac yn ystyried a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Ystyriaf a oes unrhyw oblygiadau i'm tystysgrif os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg â'r datganiadau ariannol.

**Tystysgrif Archwiliwr Cyffredinol Cymru i Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru *(parhad)***

Rwyf yn adolygu p'un a yw'r datganiad ar dudalennau 10 ac 11 yn adlewyrchu cydymffurfiaeth y Cyngor Cenedlaethol ag arweiniad y Trysorlys 'Rheolaeth Gorfforaethol: datganiad ar y system o reoli arian yn fewnol'. Nodaf os nad yw'n bodloni'r gofynion a bennwyd gan y Trysorlys, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol.

**Sail y farn archwilio**

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio y Deyrnas Unedig a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys archwilio, ar sail prawf, y dystiolaeth sy'n berthnasol i symiau, datgeliadau a chysondeb y trafodion ariannol a gafodd eu cynnwys yn y datganiadau ariannol. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau arwyddocaol a wnaed gan y Cyngor Cenedlaethol a'r Prif Weithredwr wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac a yw'r polisïau cyfrifo yn briodol i amgylchiadau'r Cyngor Cenedlaethol, wedi eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Rwyf wedi cynllunio a chyflawni fy archwiliad er mwyn casglu'r holl wybodaeth a'r esboniadau a oedd yn angenrheidiol yn fy marn i er mwyn i mi gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol nad oes camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol, boed hynny wedi ei achosi gan gamgymeriad, neu drwy dwyll neu anghysondeb arall a bod y gwariant a'r incwm ym mhob ystyr berthnasol wedi eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Rwyf hefyd wedi gwerthuso pa mor ddigonol yn gyffredinol yw cyflwyniad y wybodaeth yn y datganiadau ariannol wrth lunio fy marn.

Fel y nodwyd yn y Datganiad ar Reolaeth Fewnol ar dudalennau 10 ac 11, nododd y Cyngor Cenedlaethol rai diffygion yn y gweithdrefnau a ddilynwyd ar gyfer caffael nwyddau a gwasanaethau arbennig. O ganlyniad gwnaeth y Cyngor Cenedlaethol gais i Gynulliad Cenedlaethol Cymru am gymeradwyaeth ôl-weithredol mewn perthynas â 19 o gontractau a gychwynnwyd yn ystod cyfnod y cyfrif. Nododd y Cyngor Cenedlaethol un contract pellach a osododd a oedd yn torri cyfarwyddebau caffael Ewropeaidd. Ymataliodd Swyddog Cydymffurfiaeth y Cynulliad gymeradwyaeth ar gyfer 13 o'r contractau hyn, ac mae'r Cyngor Cenedlaethol wedi creu gwariant afreolaidd o £2,218,000 o ganlyniad. Ceir rhagor o fanylion am y mater hwn yn fy adroddiad ar y datganiadau ariannol hyn.

## Barn amodol

Yn fy marn i:

- Mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun teg a chywir o gyflwr busnes Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant a’r Grŵp ar 31 Mawrth 2002 ac o’r gwarged, cyfanswm yr enillion a’r colledion cydnabyddedig, a’r llifau arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny ac fe’u paratowyd yn gywir yn unol â Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 a chyfarwyddiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a wnaed yn ôl y gofynion hynny; ac

- Ar wahân i’r gwariant afreolaidd o £2,218,000 sy’n deillio o’r 13 contract y cyfeiriwyd atynt uchod, mae’r gwariant a’r incwm, ym mhob ystyr berthnasol, wedi eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae’r trafodion ariannol yn cydymffurfio â’r awdurdodau sy’n eu rheoli.

Mae fy adroddiad ar y datganiadau ariannol hyn ar dudalennau 39 i 63.

**John Bourn**

**Archwiliwr Cyffredinol Cymru**

**9 Ionawr 2003**

***3- 4 Plas y Parc***

***Caerdydd***

***CF10 3DP***

## Cyfrif incwm a gwariant cyfunol

***ar gyfer y cyfnod o 10 Hydref 2000 hyd 31 Mawrth 2002***

| | *Nodyn* | **Grŵp** | | **Cyngor** | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Incwm gros** | | | | | |
| Cymorth grant | *2* | **371,670** | | **371,670** | |
| Rhyddhau grant gohiriedig y Llywodraeth | *2* | **376** | | **376** | |
| Rhaglenni Ewropeaidd | *3* | **5,212** | | **5,203** | |
| Incwm arall | *4* | **12,129** | | **11,790** | |
| **Gwariant** | | | **389,387** | | **389,039** |
| *Ariannu addysg bellach, hyfforddiant a datblygiad:* | | | | | |
| Hyfforddiant yr ifanc | *5* | **62,184** | | **62,096** | |
| Dysgu yn y gwaith i oedolion | *5* | **13,866** | | **13,851** | |
| Cyfrifon dysgu unigol | *5* | **3,815** | | **3,815** | |
| Cysylltiadau busnes addysg | *5* | **2,068** | | **2,068** | |
| Addysg bellach | *5* | **216,678** | | **216,678** | |
| Diploma mewn sgiliau modern | *5* | **706** | | **706** | |
| Datblygiad sgiliau busnes | *5* | **6,873** | | **6,873** | |
| Arloesi a datblygiad | *5* | **42,836** | | **42,829** | |
| Corus | *5* | **1,796** | | **1,796** | |
| Gwariant Arall | *5* | **15,509** | | **15,509** | |
| Rhaglenni Ewropeaidd | *5* | **7,820** | | **7,785** | |
| | | | **(374,151)** | | **(374,006)** |
| **Gwariant gweinyddol** | | | | | |
| Costau staff | *6, 7* | **14,084** | | **14,037** | |
| Dibrisiad | | **737** | | **711** | |
| Costau gweinyddol eraill | *8* | **8,146** | | **8,006** | |
| Codiannau tybiedig – cost cyfalaf | *10* | **147** | | **51** | |
| | | | **(23,114)** | | **(22,805)** |
| **Diffyg gweithredu cyn eitemau eithriadol** | | | **(7,878)** | | **(7,772)** |
| Eitemau eithriadol: Costau ailadeiladu | *18* | | **(2,864)** | | **(2,660)** |
| **Diffyg gweithredu ar ôl eitemau eithriadaol** | | | **(10,742)** | | **(10,432)** |
| Gwarged/(diffyg) ar gael gwared ag asedau sefydlog | *22* | | **14** | | **14** |
| Llog a dderbyniwyd | *9* | | **1,089** | | **165** |
| Addasiad ar gyfer codiant tybiannol (cost cyfalaf) | *10* | | **147** | | **51** |
| **Cyfanswm diffyg gweithredu** | | | **(9,492)** | | **(10,202)** |
| Treth | *12* | | **(265)** | | **(33)** |
| **Diffyg ar gyfer y cyfnod ariannol** | | | **(9,757)** | | **(10,235)** |
| Trosglwyddiadau i ac o gronfeydd wrth gefn: | | | | | |
| Asedau a gafwyd drwy addasiadau ailbrisio | *22* | | **335** | | **335** |
| Ariannau neilltuedig | *11* | | **23** | | **23** |
| **Diffyg ar gyfer y cyfnod a drosglwyddwyd i gronfeydd** | *22* | | **(9,399)** | | **(9,877)** |

Mae'r gweithgareddau i gyd yn parhau.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 20 - 40  yn rhan o'r cyfrifon yma.

## Mantolen gyfunol

***fel yr oedd ar 31 Mawrth 2002***

| | *Nodyn* | **Grŵp** | | **Cyngor** | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Asedau sefydlog** | | | | | |
| Asedau cyffyrddadwy | *13* | | **2,329** | | **1,155** |
| **Asedau cyfredol** | | | | | |
| Dyledwyr | *14* | **3,401** | | **3,657** | |
| Benthyciadau | *15* | **654** | | **654** | |
| Arian yn y banc ac yn y llaw | | **16,461** | | **6,416** | |
| | | **20,516** | | **10,727** | |
| **Credydwyr:** faint fydd yn ddyledus o fewn blwyddyn | *16* | **(18,016)** | | **(12,469)** | |
| **Asedau cyfredol net/(dyledion)** | | | **2,500** | | **(1,742)** |
| **Cyfanswm asedau heb yr dyledion cyfredol** | | | **4,829** | | **(587)** |
| **Credydwyr:** faint fydd yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | *17* | | **(298)** | | **-** |
| **Darpariaethau ar gyfer dyledion a chodiannau** | *18* | | **(5,943)** | | **(2,660)** |
| **Dyledion net** | | | **(1,412)** | | **(3,247)** |
| **Ariannwyd gan:** | | | | | |
| Gronfa Grant Gohiriedig y Llywodraeth | *22* | | **872** | | **872** |
| **Cyfalaf a chronfeydd** | | | | | |
| Cyfrifon Incwm a Gwariant | *22* | | **(3,221)** | | **(5,056)** |
| Cronfa ailbrisio | *22* | | **937** | | **937** |
| | *27* | | **(1,412)** | | **(3,247)** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 20 - 40 yn rhan o'r cyfrifon yma.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol yma gan y Cyngor ar Dachwedd 21 2002 ac fe'u harwyddwyd ar ei ran gan:

**Steve Martin**
**Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifeg**
**Rhagfyr 2002**

# Datganiad llif arian cyfunol

***ar gyfer y cyfnod o10 Hydref hyd 31 Mawrth 2002***

| | *Nodyn* | **Grŵp £'000** | **Cyngor £'000** |
|---|---|---|---|
| **Datganiad llif arian** | | | |
| **Arian net (all-lif)/mewnlif o weithgareddau gweithredu** | *24* | **(35,747)** | **2,940** |
| **Dychweliadau ar fuddsoddiadau a gwasanaethu arian** | | | |
| Llog a dderbyniwyd | | **1,112** | **188** |
| **Treth a dalwyd** | | **(265)** | **(33)** |
| **Gwariant cyfalaf a buddsoddiad ariannol** | | | |
| Taliadau i brynu asedau sefydlog cyffyrddadwy | | **(1,106)** | **(1,106)** |
| Derbyniadau o werthu asedau sefydlog cyffyrddadwy | | **14** | **14** |
| **Arian (all-lif)/mewnlif cyn rheoli adnoddau hylifol ac ariannu** | | **(35,992)** | **2,003** |
| **Ariannu** | | | |
| Trosglwyddo arian o'r CCABC gynt ar 1 Ebrill 2001 | *29* | **3,307** | **3,307** |
| Ariannau Tec ar 1 Ebrill 2001 | *29* | **48,040** | **-** |
| Grant gohiriedig y llywodraeth | | **1,106** | **1,106** |
| **(Gostyngiad)/cynydd yn yr arian yn y cyfnod** | | **16,461** | **6,416** |

## Cymodi llif arian net i symudiad yr ariannau net

| | | | |
|---|---|---|---|
| **(Gostyngiad)/cynnydd mewn arian yn y cyfnod (Hydref 2000 – Mawrth 2002)** | | **16,461** | **6,416** |
| Symudiad grantiau gohiriedig y llywodraeth | | **(872)** | **(872)** |
| Symudiad ar fenthyciadau | | **654** | **654** |
| **Symudiad ariannau net yn y cyfnod** | | **16,243** | **6,198** |
| **Ariannau net ar gychwyn y cyfnod (10 Hydref 2000)** | | **-** | **-** |
| **Ariannau net ar ddiwedd y cyfnod** | *25* | **16,243** | **6,198** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 20 - 40  yn rhan o'r cyfrifon yma.

## Datganiad o gyfanswm yr enillion a cholledion cydnabyddedig

***ar gyfer y cyfnod o10 Hydref 2000 hyd 31 Mawrth 2002***

| | Grŵp £'000 | Cyngor £'000 |
|---|---|---|
| **Y diffyg ar gyfer y cyfnod ariannol** | **(9,399)** | **(9,877)** |
| Gwarged heb ei wireddu ar ailbrisiad asedau sefydlog a benthyciadau | **1,272** | **1,272** |
| Cyfanswm yr enillion a cholledion wedi eu gwireddu sy'n berthnasol i'r cyfnod ariannol | **(8,127)** | **(8,605)** |

## Nodyn o ganlyniadau costau hanesyddol

***ar gyfer y cyfnod o10 Hydref 2000 hyd 31 Mawrth 2002***

| | Grŵp £'000 | Cyngor £'000 |
|---|---|---|
| **Cyfanswm y diffyg gweithredu** | **(9,492)** | **(10,202)** |
| Y gwahaniaeth rhwng codiant dibrisiad y costau hanesyddol a'r codiant dibrisiad gwirioneddol wedi ei gyfrifo ar y swm a ailbriswyd | **335** | **335** |
| **Y diffyg costau hanesyddol cyn treth** | **(9,157)** | **(9,867)** |
| **Y diffyg costau hanesyddol ar ôl trethiant** | **(9,422)** | **(9,900)** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 20 - 40 yn rhan o'r cyfrifon yma

# Nodiadau

***(yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol)***

## 1 Polisïau Cyfrifeg

Mae'r polisïau cyfrifeg nesaf yma wedi eu gweithredu'n gyson wrth ddelio gydag eitemau a ystyriwn yn faterol mewn perthynas â datganiadau ariannol y grŵp fel sydd wedi eu nodi isod. Mae'r grŵp yma wedi mabwysiadu 'Budd-daliadau ymddeol' FRS 17, 'Polisïau cyfrifeg' FRS 18 a 'Threth ohiriedig' FRS 19 yn y datgniadau ariannol yma.

***Sylfaen y paratoad***

Dan Adran 19 y Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, chwalwyd Cyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru ar Ebrill 1af 2001, a throsglwyddwyd ei eiddo, ei hawliau a'i ddyledion i Gyngor Cenedlaethol Addysg a Hyfforddiant Cymru. Roedd Adran 93 y ddeddf yma'n cyfeirio hefyd at drosglwyddo asedau arbennig o'r Cynghorau Hyfforddiant a Menter i'r Cyngor Cenedlaethol ar Ebrill 1af 2001 yn unol â Chynllun Trosglwyddiad Eiddo, Hawliau a Dyledion 2001 a luniwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r TECs yn parhau mewn bodolaeth ar hyn o bryd dan reolaeth y Cyngor Cenedlaethol. Mae canlyniadau ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2001 hyd Fawrth 31 2002 wedi eu hymgorffori yn y cyfrifon cyfunol yma sydd wedi'u paratoi yn unol â Chyfarwyddiad Cyfrifeg a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar Ebrill 30 2002. Mae gan y cyfarwyddyd yma a gyhoeddwyd gyda chaniatâd y Trysorlys, y pwer a ddisgrifir ym mharagraff 14(2), sgediwl 4 y Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 ynghyd â'r holl arweiniad perthnasol arall.

Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi dan gonfensiwn cost hanesyddol a addaswyd yn unol â safonau cyfrifeg perthnasol a'r rheolau cyfrifeg costau hanesyddol cyn belled ag y bo'r gofynion yma'n addas. Ag eithrio tir ac adeiladau, mae'r asedau sefydlog wedi'u prisio ar gost hanesyddol heb ddibrisiad, ac nid ydynt wedi eu hailbrisio oherwydd, ym marn y Cyngor, ni fyddai addasiadau o'r fath yn faterol.

***Sylfaen atgyfnerthiad***

Mae'r datganiadau ariannol cyfunol yn delio gyda'r cyfnod o 10 Hydref 2000 hyd 31 Mawrth 2002 ac maen nhw'n cynnwys datganiadau ariannol y Cyngor Cenedlaethol, a'r Cyngor Cenedlaethol a'r TECs (yn ffurfio'r Grŵp) hyd Fawrth 31 2002. Mae'r Cyngor Cenedlaethol wedi cydymffurfio gyda Safon Adroddiadau Ariannol Rhif 6 drwy fabwysiadu dull caffaeliad cyfrifeg.

***Prydlesau***

Mae asedau a gafwyd dan brydlesau ariannol wedi eu cyfalafu ac mae'r oblygiadau prydlesu dyledus yn y dyfodol i'w gweld mewn perthynas â'r credydwyr. Mae costau rhentu prydlesau gweithredu i'w gweld yn y cyfrif elw a cholled ar sail lllinell syth dros gyfnod y brydles.

***Grantiau ar gyfer projectau'r Undeb Ewropeaidd***

Incwm: Derbyniodd y Cyngor incwm grant mewn perthynas â phrojectau UE o ddwy ffynhonnell. Mae incwm grant gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn cefnogi projectau'r Gronfa Ddefnyddio Gwybodaeth wedi ei gredydu o'r cyfrif yn y flwyddyn pan cafodd eu neilltuo. Mae incwm UE wedi ei gredydu i'r cyfrif yn y flwyddyn y crewyd y gwariant.

Gwariant: Fel yr ymgeisydd ar gyfer projectau Ewropeaidd sy'n ffurfio contractau gyda thrydydd partïonar gyfer y ddarpariad, mae atebolrwydd y Cyngor yn codi pan dderbynir cais dilys gan dderbyniwr y grant.

**Cymorth Grant**

Derbyniwyd grant cymorth gan y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer gwariant gweithredu a gwariant cyfalaf. Lle mae gwariant Grant wedi ei ddeffyddio i brynu asedau sefydlog cyffyrddadwy, mae'r grant yn cael ei drin fel grant gohiriedig y Llywodraeth a'i ryddhau i'r Cyfrif Incwm a Gwariant dros fywyd economaidd defnyddiol asedau sefydlog perthnasol a amcangyfrifwyd ar sail sy'n gyson gyda'r polisi dibrisiad.

## Nodiadau *(parhad)*

**1 Polisïau cyfrifeg** ***(parhad)***

**Grantiau taladwy**

Mae grantiau sy'n daladwy mewn perthynas ag ariannau rhaglenni wedi eu cofnodi fel gwariant ar ddyddiad yr anfoneb.

Mae'r grantiau hynny o natur ailadroddus, sef yr ariannu cyfalaf ac ailadroddus a ddarperir i Sefydliadau Addysg Bellach gan fwyaf, yn dod i'r cyfrifon wrth gael eu talu. Ym marn y Cyngor, mae'r driniaeth yma'n sicrhau ymhob agwedd faterol, gyfatebiaeth rhwng ariannu grant sydd yn y cyfrifon a phatrwm gweithgaredd ariannol yn y Sefydliadau Addysg Bellach.

Mae'r holl gostau cynnal eraill wedi'u codi ar y cyfrifon Incwm a Gwariant ar ddyddiad darparu'r gwasanaeth.

**Deilliadau**

Nid oes gan y Cyngor unrhyw fenthyciadau ac mae'n dibynnu yn y lle cyntaf ar grantiau adrannol ar gyfer ei ofynion ariannol, ac nid yw felly'n agored i risgiau hylifedd. Nid oes ganddo chwaith adneuon materol ac mae'r holl asedau a dyledion materol wedi eu cyfri mewn arian sterling, felly nid yw'n agored i risgiau sylweddol i'r gyfradd llog neu risgiau cyfnewid airan.

***Asedau sefydlog cyffyrddadwy a dibrisiad***

Mae gwerth asedau sefydlog ar gostau hanesyddol heb ddibrisiad heblaw'r rheini sydd wedi eu trosglwyddo i'r Cyngor Cenedlaethol gan y cwmnïau TEC gynt, oedd wedi eu cynnwys yn y datganiadau ariannol yma ar eu gwerth teg i'r Cyngor pan gawsant eu prynu.

Mae offer yn costio mwy na £5,000 (naill ai'n unigol neu ym mhryniant cyfunol eitemau tebyg) yn dod o'r cyfalaf.

Mae disbrisiad wedi ei ddarparu i wared costau neu brisiad heb werth gweddilliol amcangyfrifiedig asedau sefydlog cyffyrddadwy gan randaliadau cyfartal dros eu bywydau economaidd defnyddiol amcangyfrifiedig fel a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| Eiddo | - | 50 mlynedd |
| Eiddo sefydlog, gosodiadau ac offer | - | 3 i 5 mlynedd |
| Cerbydau modur | - | 4 mlynedd |

Mae blwyddyn llawn o ddibrisiad wedi ei dalu ym mlwyddyn y pryniant.

Mae asedau a brynwyd fel rhan o weithrediadau rhaglen wedi eu nodi fel treuliau yn y flwyddyn honno.

***Codiannau tybiannol***

Yn ôl cyfarwyddyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru mae codiant cyfalaf tybiannol sy'n adlewyrchu cost y cyfalaf a ddefnyddiwyd wedi ei gynnwys mewn costau gweithredu a'i gyfrifo fel 6% o'r cyfalaf a ddefnyddiwyd.

***Treth***

Mae treth ohiriedig wedi ei chydnabod, heb ostyngiad ar gyfer yr holl wahaniaethau amseru rhwng triniaeth eitemau arbennig i bwrpasau trethiant a chyfrifeg sydd wedi codi ond sydd heb ei throi'n ôl gan ddyddiad y fantolen, heblaw bod FRS 19 yn gofyn yn wahanol.

Mae treth gorfforaethol uwch y mae modd ei hawlio'n ôl drwy dynnu o dreth y gorfforaeth yn y dyfodol wedi ei dwyn mlaen o fewn trethiant ohiriedig neu fel ACT y mae modd ei hawlio'n ôl fel dyledion fel sy'n briodol.

## Nodiadau *(parhad)*

### 1 Polisïau cyfrifeg *(parhad)*

***Budd-daliadau ar ôl ymddeol***

Mae'r Cyngor yn cymryd rhan ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasaeth Sifil (PCSPS) sy'n darparu budd-daliadau wedi eu seilio ar y tâl pensiynadwy terfynol. Fel mae FRS 17 'Budd-daliadau ymddeol' yn ei ganiatáu, mae'r Cyngor yn dangos cyfrifon y cynllun fel pe bai'n gynllun cyfraniad diffiniedig. O ganlyniad, mae'r swm a godir ar y cyfrif Incwm a Gwariant yn cynrychioli'r cyfraniadau sy'n daladwy i'r cynllun am y cyfnod cyfrifeg.

Mae'r grŵp wedi cymryd rhan hefyd mewn cynlllunaiu eraill; cynlluniau cyfraniad diffiniedig a budd-dâl diffiniedig. Mae asedau'r cynlluniau yma wedi eu dal ar wahân oddi wrth asedau'r grŵp mewn cronfeydd a weinyddir yn annibynnol.

***Incwm***

Mae'r holl incwm a chanlyniadau gweithredu ar gyfer y cyfnod yn codi o ddarpariaeth hyfforddiant a chefnogaeth ar gyfer menter yn y rhanbarth. Mae'r rhain oll yn ganlyniad i brif weithgaredd y grŵp sy'n codi ym Mhrydain ac mae wedi ei nodi'n glir o'r Dreth ar Werth.

Mae'r incwm heblaw'r Cymorth grant a dderbyniwyd oddi wrth y Cynulliad Cenedlaethol yn cael ei gredydu i'r Cyfrif Incwm a Gwariant ar y dyddiad y mae'r gwasanaeth wedi ei ddarparu, yn gyson gyda chonfensiwn croniadau arferol.

***Dyledion Difrifol***

Mae'r Cyngor Cenedlaethol yn darparu'n llawn ar gyfer pob dyled sy'n parhau 6 mis ar ôl dyddiad yr anfoneb.

## Nodiadau *(parhad)*

.

### 2 Cymodi Cymorth Grant

Mae'r nodyn nesaf yn cymodi'r arian a dderbyniwyd oddi wrth Gynulliad Cenedlaethol Cymru fel grant i helpu ar gyfer y cyfnod yn y datganiadau ariannol

(a) Grant cymorth refeniw a dderbyniwyd:

| | **Y cyfnod yn gorffen 31 Mawrth 2002 Grŵp a Chyngor £'000** |
|---|---|
| Grant cymorth a dderbyniwyd | **372,776** |
| Heb y symiau a ddefnyddiwyd ar gyfer gwariant cyfalaf | **(1,106)** |
| **Grant cymorth i bob cyfrif incwm a gwariant** | **371,670** |

(b) Grant cymorth gohiriedig:

| | **Y cyfnod yn gorffen 31 Mawrth 2002 Grŵp a Chyngor £'000** |
|---|---|
| Y gweddill ar 10 Hydref 2000 | **-** |
| Trosglwyddiad gan GCANC gynt ar 1 Ebrill 2001 | **142** |
| Grantiau cyfalaf a dderbyniwyd yn y cyfnod | **1,106** |
| Heb y symiau a ryddhawyd i'r cyfrif incwm a gwariant | **(376)** |
| **Y gweddill ar 31 Mawrth 2002** | **872** |

### 3 Incwm Ewropeaidd

| | **Y cyfnod yn gorffen 31 Mawrth 2002** | |
|---|---|---|
| | **Grŵp £'000** | **Cyngor £'000** |
| Grantiau ESF | **4,278** | **4,269** |
| Grantiau ERDF | **934** | **934** |
| | **5,212** | **5,203** |

# Nodiadau *(parhad)*

## 4 Incwm arall

| | Y cyfnod yn gorffen 31 Mawrth 2002 | |
|---|---|---|
| | **Grŵp** | **Cyngor** |
| | **£'000** | **£'000** |
| Cronfeydd mynediad | **9,998** | **9,998** |
| Ariannu cyfatebol projectau Ewropeaidd gan y CCAUC | **957** | **957** |
| Arall | **1,174** | **835** |
| | **12,129** | **11,790** |

## 5 Ariannu addysg bellach, hyfforddiant a datblygiad

| | Y cyfnod yn gorffen 31 Mawrth 2002 | |
|---|---|---|
| | **Grŵp** | **Cyngor** |
| | **£'000** | **£'000** |
| *Costau rhaglenni* | | |
| **Hyfforddi'r Ifanc** | | |
| Hyfforddi'r ifanc/adeiladu sgiliau | **17,280** | **17,275** |
| Rhaglenni hyfforddi cenedlaethol | **21,923** | **21,912** |
| Credydau hyfforddi | **901** | **901** |
| Prentisiaethau | **18,607** | **18,535** |
| Cefnogaeth hyfforddi'r ifanc | **2,140** | **2,140** |
| Marchnata'r ifanc | **1,333** | **1,333** |
| | **62,184** | **62,096** |
| **Dysgu yn y gwaith i oedolion** | | |
| Dysgu yn y gwaith i oedolion | **7,500** | **7,485** |
| Wythnosau lwfans oedolion | **5,811** | **5,811** |
| Cefnogaeth hyfforddi oedolion | **288** | **288** |
| Marchnata oedolion | **267** | **267** |
| | **13,866** | **13,851** |
| **Cyfrifon dysgu unigol** | | |
| Cyfrifon dysgu unigol | **3,736** | **3,736** |
| Marchnata cyfrifon dysgu unigol | **79** | **79** |
| | **3,815** | **3,815** |

## Nodiadau *(parhad)*

### 5 Ariannu addysg bellach, hyfforddiant a datblygiad *(parhad)*

| | Y cyfnod yn gorffen 31 Mawrth 2002 | |
|---|---|---|
| | **Grŵp** | **Cyngor** |
| | **£'000** | **£'000** |
| **Cysylltiadau busnes addysg** | | |
| Treuliau addysg | **2,052** | **2,052** |
| Marchnata addysg | **16** | **16** |
| | **2,068** | **2,068** |
| **Cyllido Addysg Bellach - Sefydliadau** | | |
| Coleg Aberdâr | **2,402** | **2,402** |
| Coleg y Bari | **7,426** | **7,426** |
| Coleg Pen-y-Bont ar Ogwr | **11,337** | **11,337** |
| Coleg Sir Gâr | **12,707** | **12,707** |
| Coleg Ceredigion | **3,026** | **3,026** |
| Coleg Chweched Dosbarth Dewi Sant | **3,082** | **3,082** |
| Coleg Glannau Dyfrdwy | **8,943** | **8,943** |
| Coleg Meirion-Dwyfor | **4,823** | **4,823** |
| Coleg Glan Hafren | **11,124** | **11,124** |
| Coleg Gorseinon | **6,057** | **6,057** |
| Coleg Gwent | **30,353** | **30,353** |
| Coleg Harlech / Cymdeithas Addysg y Gweithwyr, Gogledd Cymru | **1,884** | **1,884** |
| Coleg Garddwriaeth Cymru | **2,502** | **2,502** |
| Coleg Llysfasi | **2,124** | **2,124** |
| Coleg Menai | **8,883** | **8,883** |
| Coleg Merthyr Tydfil | **3,599** | **3,599** |
| Coleg Castell Nedd Aberafan | **14,177** | **14,177** |
| Coleg Sir Benfro | **8,396** | **8,396** |
| Coleg Pontypridd | **11,027** | **11,027** |
| Coleg Powys | **5,429** | **5,429** |
| Coleg Llandrillo | **13,141** | **13,141** |
| Coleg Abertawe | **12,871** | **12,871** |
| Cymdeithas Addysg y Gweithwyr, De Cymru | **1,350** | **1,350** |
| Coleg Iâl | **12,546** | **12,546** |
| YMCA | **300** | **300** |
| Coleg Ystrad Mynach | **7,515** | **7,515** |
| **Holl Wariant Addysg Bellach Arall** | **9,654** | **9,654** |
| **Cyfanswm Gwariant ar Addysg Bellach** | **216,678** | **216,678** |
| **Diploma Sgiliau Modern** | **706** | **706** |
| **Datblygiad Sgiliau Busnes** | | |
| Buddsoddwyr mewn Pobl | **1,329** | **1,329** |
| Marchnata Buddsoddwyr mewn Pobl | **175** | **175** |
| Menter busnes | **4,685** | **4,685** |
| Marchnata busnes | **684** | **684** |
| | **6,873** | **6,873** |

## Nodiadau *(parhad)*

### 5 Ariannu addysg bellach, hyfforddiant a datblygiad *(parhad)*

| | Y cyfnod yn gorffen 31 Mawrth 2002 | |
|---|---|---|
| | **Grŵp** | **Cyngor** |
| | **£'000** | **£'000** |
| **Arloesi a Datblygiad** | **42,836** | **42,829** |
| **Corus** | **1,796** | **1,796** |
| **Gwariant Arall** | | |
| Parhau addysg i oedolion | **4,721** | **4,721** |
| Marchnata parhau addysg i oedolion | **8** | **8** |
| Costau marchnata eraill | **735** | **735** |
| Gwariant arall | **10,045** | **10,045** |
| | **15,509** | **15,509** |
| **Rhaglenni Ewropeaidd** | **7,820** | **7,785** |
| **Cyfanswm y Gwariant ar Raglenni** | **374,151** | **374,006** |

***Gwariant Addysg Bellach***

Wedi ei gynnwys yn y cyfrifon yma mae grantiau i sefydliadau sy'n derbyn archwiliad gan archwilwyr allanol y derbynwyd eu bod wedi eu defnyddio i'w pwrpasau cywir. Mae blwyddyn ariannol sefydliadau addysg bellach yn gorffen ar 31 Gorffennaf a disgwylir i gyfrifon wedi'u harchwilio gael eu derbyn gan y Cyngor Cenedlaethol erbyn Rhagfyr 31. Bydd unrhyw addasiadau yn codi o'r archwiliad cyfrifon 2001-02 a newid yn nifer myfyrwyr y sefydliadau wedi eu gwneud gan y Cyngor Cenedlaethol mewn blynyddoedd i ddod.

Mae'r Cyngor Cenedlaethol yn cadarnhau bod y grantiau a dderbyniwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru wedi eu defnyddio i'w pwrpasau cymeradwy.

***Gwariant Ewropeaidd***

Mae'r symiau sy'n berthnasol i'r taliadau grant a wnaethpwyd dan yr ESF a'r ERDF yn derbyn archwiliadau gwahanol. Ar amser cwblhau'r cyfrifon yma nid oedd unrhyw dystysgrifau archwiliad wedi eu derbyn. Unwaith y bydd y ffigyrau yma wedi'u hardystio bydd unrhyw addasiadau'n cael eu hymgorffori yng ngweddillion 2002-03.

# Nodiadau *(parhad)*

## 6 Costau staff

Nifer y bobl ar gyfartaledd a gyflogwyd gan NCETW (yn cynnwys aelodau'r Cyngor) yn ysod y cyfnod oedd 569.

Dyma oedd ymraniad y ffigur yma gan y swyddfa ranbarthol:

| | |
|---|---|
| Bedwas | 222 |
| Abertawe | 104 |
| Y Drenewydd | 59 |
| Llanelwy | 108 |
| Llanisien | 76 |
| | 569 |

Dyma oedd costau cyflogres cyfan y bobl yma:

| | **Y cyfnod yn gorffen 31 Mawrth 2002** | |
|---|---|---|
| | **Grŵp 2002 £'000** | **Cyngor 2002 £'000** |
| Cyflogau a salarïau | **11,813** | **11,774** |
| Costau nawdd cymdeithasol | **872** | **869** |
| Taliadau am bensiynau heb eu hariannu | **1,524** | **1,519** |
| Cyfanswm costau staff | **14,209** | **14,162** |
| Heb y costau staff oedd wedi eu talu gan y Rhaglen | **(125)** | **(125)** |
| Costau staff – Treuliau Gweinyddol | **14,084** | **14,037** |

Mae'r costau cyflogres o £125,000 sydd wedi eu nodi uchod yn berthnasol i 6 o niferoedd cyfatebol sydd wedi eu cyflogi i gefnogi ariannu Corus wedi ei dalu gan dreuliau'r rhaglen.

## **Nodiadau** *(parhad)*

### 7 Cyflogau a dadleniadau pensiwn

| | | Oedran | Cyflog Enillion £'000 | Cyfraniad pensiwn £'000 | Cynydd real yn y pensiwn (ystod) £'000 | Pensiwn cronedig (ystod) £'000 | Ymrwymiad - dyddiau bob mis |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Enid Rowlands | Cadeirydd | 47 | 48 | Dim | 0-2.5 | 0-2.5 | 12 |
| Dr Rita Austin | Aelod o'r Cyngor | | 7 | Nid yw'n | Berthnasol | N/b | 2 |
| Sheila Drury OBE | Aelod o'r Cyngor | | 13 | Nid yw'n | Berthnasol | N/b | 4 |
| Dr Haydn Edwards * | Aelod o'r Cyngor | | 6 | Nid yw'n | Berthnasol | N/b | 2 |
| Daniel Fellows OBE | Aelod o'r Cyngor | | 13 | Nid yw'n | Berthnasol | N/b | 4 |
| Dr Tim Jones | Aelod o'r Cyngor | | 13 | Nid yw'n | Berthnasol | N/b | 4 |
| Keith McDonogh * | Aelod o'r Cyngor | | 6 | Nid yw'n | Berthnasol | N/b | 2 |
| Dr Sonia Reynolds | Aelod o'r Cyngor | | 7 | Nid yw'n | Berthnasol | N/b | 2 |
| Alastair Robertson | Aelod o'r Cyngor | | 3 | Nid yw'n | Berthnasol | N/b | 2 |
| James Gibson Watt | Aelod o'r Cyngor | | 13 | Nid yw'n | Berthnasol | N/b | 4 |
| Yr Athro Syr Adrian Webb | Aelod o'r Cyngor | | 7 | Nid yw'n | Berthnasol | N/b | 2 |
| ***Rheolwyr uwch*** | | | | | | | |
| Steve Martin | Prif Weithredwr | 49 | 105 | 19 | 5-7.5 | 35-40 | Llawn amser |
| Robin Beckman | Cyfarwyddwr Rhanbarthol | 43 | 44 | 7 | 0-2.5 | 0-2.5 | Llawn amser |
| Katie Blackburn | Cyfarwyddwr Rhanbarthol | 34 | 52 | 9 | 0-2.5 | 0-2.5 | Llawn amser |
| Linda Bloomfield | Cyfarwyddwr Gweithrediadau | 51 | 77 | 14 | 0-2.5 | 0-2.5 | Llawn amser |
| Richard Hart | Cyfarwyddwr Rhanbarthol | 50 | 54 | 9 | 2.5-5 | 5-10 | Llawn amser |
| Richard Hirst | Cyfarwyddwr Cyllid | 48 | 68 | 12 | 2.5-5 | 20-25 | Llawn amser |
| Paul Humpherston | Cyfarwyddwr AD | 55 | 65 | 12 | 0-2.5 | 0-2.5 | Llawn amser |
| Grenville Jackson | Cyfarwyddwr Strategaeth | 52 | 65 | 12 | 0-2.5 | 0-2.5 | Llawn amser |
| George McKechnie | Cyfarwyddwr Cyfranogaeth | 55 | 58 | 10 | 0-2.5 | 0-2.5 | Llawn amser |
| David Morgan | Cyfarwyddwr Rhanbarthol | 54 | 63 | 12 | 0-2.5 | 0-2.5 | Llawn amser |

* Mae'r taliadau yma'n cael eu talu'n uniongyrchol i sefydliadau'r cyflogwyr yn hytrach nag i'r unigolion.

Mae cyflogau'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid (Richard Hirst) wedi eu cynnwys yn y cyfrifon ar sail ddosranedig (pedair rhan o bump NCETW ac un rhan o bump i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru). Mae'r ffigurau yn y tabl uchod yn cynrychioli eu cyflogau blynyddol llawn.

Mae gan y Cadeirydd gontract tair blynedd ac mae gan y Prif Weithredwr gontract parhaol.

Mae aelodau eraill o'r Cyngor wedi eu penodi am dymhorau sefydlog fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Dr. Austin a Dr Reynolds | O 8 Chwefror 2001 hyd 28 Chwefror 2003 |
| Dr. Edwards, Mr Fellows, Mr McDonogh, Mr. Gibson Watt | O 8 Chwefror 2001 hyd 29 Chwefror 2004 |
| Mrs Drury, Dr. Jones , Yr Athro Webb | O 8 Chwefror 2002 hyd 28 Chwefror 2005 |
| Cafodd Mr John Davies ei benodi i'r Cyngor | O 31 Mawrth 2002 hyd 28 Chwefror 2005 |

Derbyniodd Mr Martin £3,900 o daliad sy'n berthnasol i berfformiad wedi ei seilio ar gyrraedd amrediad o amcanion a sefydlwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol. Roedd yr amcanion yma'n cynnwys sefydlu a datblygu cenhadaeth, strategaeth a gwerthoedd craidd y sefydliad newydd ynghyd â gweithrediad llwyddiannus trefnau a rheolyddion polisïau.

Nid yw unrhyw aelod o'r Cyngor neu reolwr uwch yn derbyn unrhyw ariannau neu fudd-daliadau eraill mewn cynnyrch.

Nid oes pensiwn cronedig yn bodoli ar gyfer y rheolwyr uwch sydd â llai na dwy flynedd o wasanaeth ar ddiwedd y cyfnod.

Mae Mr. Martin yn Aelod arferol o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

## 8 Costau gweinyddol eraill

| | Y cyfnod yn gorffen 31 Mawrth 2002 | |
|---|---|---|
| | **Grŵp** | **Cyngor** |
| | **£'000** | **£'000** |
| Costau staff cysylltiedig | **2,004** | **2,004** |
| Teithio a llety aelodau'r Cyngor | **50** | **50** |
| Costau swyddfa | **1,374** | **1,330** |
| Costau adeiladau | **1,645** | **1,516** |
| Costau technoleg gwybodaeth | **484** | **484** |
| Prynu gwasanaethau i mewn | **1,357** | **1,373** |
| Talu archwilwyr: | | |
| - Archwiliad | **96** | **80** |
| - Tystysgrif Hawliau Grant Ewropeaidd | **65** | **65** |
| - Gwaith adroddiad sicrhad ychwanegol ( Ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru) | **10** | **10** |
| Yr holl wariant arall | **1,061** | **1,094** |
| | **8,146** | **8,006** |

## 9 Costau gweinyddol eraill

| | Y cyfnod yn gorffen 31 Mawrth 2002 | |
|---|---|---|
| | **Grŵp** | **Cyngor** |
| | **£'000** | **£'000** |
| Costau staff cysylltiedig | **2,004** | **2,004** |
| Teithio a llety aelodau'r Cyngor | **50** | **50** |
| Costau swyddfa | **1,374** | **1,330** |
| Costau adeiladau | **1,645** | **1,516** |
| Costau technoleg gwybodaeth | **484** | **484** |
| Prynu gwasanaethau i mewn | **1,357** | **1,373** |
| Talu archwilwyr: | | |
| - Archwiliad | **96** | **80** |
| - Tystysgrif Hawliau Grant Ewropeaidd | **65** | **65** |
| - Gwaith adroddiad sicrhad ychwanegol ( Ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru) | **10** | **10** |
| Yr holl wariant arall | **1,061** | **1,094** |
| | **8,146** | **8,006** |

## Nodiadau *(parhad)*

### 10 Costau gweinyddol eraill

| | Y cyfnod yn gorffen 31 Mawrth 2002 | |
|---|---|---|
| | **Grŵp** | **Cyngor** |
| | **£'000** | **£'000** |
| Costau staff cysylltiedig | **2,004** | **2,004** |
| Teithio a llety aelodau'r Cyngor | **50** | **50** |
| Costau swyddfa | **1,374** | **1,330** |
| Costau adeiladau | **1,645** | **1,516** |
| Costau technoleg gwybodaeth | **484** | **484** |
| Prynu gwasanaethau i mewn | **1,357** | **1,373** |
| Talu archwilwyr: | | |
| - Archwiliad | **96** | **80** |
| - Tystysgrif Hawliau Grant Ewropeaidd | **65** | **65** |
| - Gwaith adroddiad sicrhad ychwanegol ( Ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru) | **10** | **10** |
| Yr holl wariant arall | **1,061** | **1,094** |
| | **8,146** | **8,006** |

### 11 Llog a ddebrynir ac incwm tebyg

| | Y cyfnod yn gorffen 31 Mawrth 2002 | |
|---|---|---|
| | **Grŵp** | **Cyngor** |
| | **£'000** | **£'000** |
| Llog banc a dderbynir | **1,060** | **136** |
| Llog a dderbynir o fenthyciadau | **29** | **29** |
| Cyfanswm y llog a dderbynir | **1,089** | **165** |

### 12 Codiannau tybiannol

| | Y cyfnod yn gorffen 31 Mawrth 2002 | |
|---|---|---|
| | **Grŵp** | **Cyngor** |
| | **£'000** | **£'000** |
| Cost cyfalaf – 6% o'r cyfalaf a ddefnyddir | **147** | **51** |

Mae'r codiannau tybiannol wedi eu cyfrifo o 1 Ebrill 2001 yn unol â'r polisi cyfrifeg yn nodyn 1 ac ar gyfraddau sydd wedi eu cyhoeddi gan y Trysorlys.

## Nodiadau *(parhad)*

### 13 Ariannau neilltuedig

| | Y cyfnod yn gorffen 31 Mawrth 2002 | |
|---|---|---|
| | Grŵp £'000 | Cyngor £'000 |
| Derbynebion a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru | **23** | **23** |

### 14 Trethiant

Dadansoddiad o'r codiant yn y cyfnod

| | Y cyfnod yn gorffen 31 Mawrth 2002 | |
|---|---|---|
| | Grŵp £'000 | Cyngor £'000 |
| *Treth gorfforaethol Brydeinig* | | |
| Y dreth gyfredol ar incwm ar gyfer y cyfnod (ar 20% - 30%) | **282** | **33** |
| Addasiadau mewn perthynas â chyfnodau blaenorol | **(17)** | **-** |
| | **265** | **33** |

Mae'r codiant treth am y cyfnod yn berthnasol i ddarpariaethau ar gyfer Treth Gorfforaethol Brydeinig ar y llog a dderbyniwyd. Roedd y lefel o ddarpariaeth o fewn y grŵp yn amrywio rhwng 20% a 30% wedi'i benderfynu gan y symiau a dderbyniwyd gan y corff adrodd mewn gwirionedd.

### 15 Asedau sefydlog cyffyrddadwy

| Grŵp | Tir ac eiddo ar brydles tymor hir £'000 | Offer, gosodion a nwyddau sefydlog £'000 | Cerbydau Modur £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| ***Cost neu brisiad*** | | | | |
| Ar ddechrau'r cyfnod | - | - | - | - |
| Trosglwyddiad o CCABC gynt ar 1 Ebrill 2001 | - | 142 | - | 142 |
| Prisiad ar 1 Ebrill 2001 | 1,200 | - | - | 1,200 |
| Addasiad Gwerth Teg ar drosglwyddiad asedau TEC | | 553 | 79 | 632 |
| Ychwanegiadau i'r gost | - | 1,106 | - | 1,106 |
| Gwaredau ar gost / brisiad | - | - | (14) | (14) |
| **Ar ddiwedd y cyfnod** | **1,200** | **1,801** | **65** | **3,066** |
| ***Dibrisiad*** | | | | |
| Y codiant am y cyfnod | 26 | 674 | 37 | 737 |
| **Ar ddiwedd y cyfnod** | **26** | **674** | **37** | **737** |
| ***Gwerth llyfr net*** | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2002** | **1,174** | **1,127** | **28** | **2,329** |

# Nodiadau *(parhad)*

## 15 Asedau sefydlog cyffyrddadwy *(parhad)*

| Cyngor | Offer, gosodion a nwyddau sefydlog £'000 | Cerbydau Modur £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|
| ***Cost neu brisiad*** | | | |
| Ar ddechrau'r cyfnod | - | - | - |
| rosglwyddiad o CCABC gynt ar 1 Ebrill 2001 | 142 | - | 142 |
| Addasiad Gwerth Teg ar drosglwyddiad asedau TEC | 553 | 79 | 632 |
| Ychwanegiadau i'r gost | 1,106 | - | 1,106 |
| Gwaredau ar gost / brisiad | - | (14) | (14) |
| **Ar ddiwedd y cyfnod** | **1,801** | **65** | **1,866** |
| ***Dibrisiad*** | | | |
| Y codiant am y cyfnod | 674 | 37 | 711 |
| **Ar ddiwedd y cyfnod** | **674** | **37** | **711** |
| ***Gwerth llyfr net*** | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2002** | **1,127** | **28** | **1,155** |

Ar 1 Ebrill 2001 trosglwyddwyd asedau sefydlog y CCABC gynt i berchnogaeth y Cyngor Cenedlaethol am eu pris llyfr net. Ar y dyddiad hwnnw hefyd, trosglwyddwyd asedau sefydlog y pedwar cwmni TEC a Chyngor y TECS Cymraeg i'r Cyngor Cenedlaethol am y pris cofnodedig a adroddwyd yng nghyfrifon 2000-01 y cwmnïau yma. Wrth eu prynu gwnaeth y Cyngor Cenedlaethol addasiad gwerth teg o £ 632,000 mewn perthynas â'r asedau TEC yma a brynwyd oedd o ddefnydd o hyd i'r Cyngor Cenedlaethol

## Nodiadau *(parhad)*

### 16 Dyledwyr

| | Grŵp 2002 £'000 | Cyngor 2002 £'000 |
|---|---|---|
| Dyledwyr masnach | 585 | 400 |
| Treth incwm mae modd ei ennill yn ôl | 14 | - |
| TAW mae modd ei ennill yn ôl | 19 | 8 |
| Symiau sy'n ddyledus oherwydd gweithrediadau'r grŵp | - | 985 |
| Dyledwyr eraill | 50 | - |
| Cyndaliadau ac incwm cronedig | 2,733 | 2,264 |
| | 3,401 | 3,657 |

### 17 Benthyciadau

| | Grŵp 2002 £'000 | Cyngor 2002 £'000 |
|---|---|---|
| Ar ddechrau'r cyfnod | - | - |
| Benthyciadau a drosglwyddwyd ar werth teg 1 Ebrill 2001 | 654 | 654 |

Mae'r benthyciadau'n ymwneud â dau fenthyciad wedi'u diogelu a wnaed i Goleg Iâl ac un benthyciad heb ei ddiogelu i Gynghrair Twristiaeth Gogledd Cymru gan Gyngor Menter a Hyfforddiant Gogledd Cymru Cyf. Tr6sglwyddwyd y tri benthyciad i'r NCETW ar Ebrill 1 2001 heb ystyriaeth a derbyniasant addasiad gwerth teg i'w cyflwyno nhw am eu gwerth i'r cwmni.

Mae'r benthyciadau i Goleg Iâl am £ 287,500 a £ 341,785 ac yn rhai tymor hir. ( rhwng 5 a 7 mlynedd ). Mae'r benthyciad i Gynghrair Twristiaeth Gogledd Cymru am £ 25,000 ac yn fenthyciad tymor byr.

Codir llog am 6 % y flwyddyn. Ni dderbyniwyd ad-daliadau yn ystod y cyfnod.

Mae ffigur debydwyr benthyciad yn cynnwys £443,000 sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn.

### 18 Credydwyr: symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn

| | Grŵp 2002 £'000 | Cyngor 2002 £'000 |
|---|---|---|
| Credydwyr masnach | 637 | 450 |
| Treth corfforaethol sy'n daladwy | 267 | 33 |
| Trethi eraill a nawdd cymdeithasol | 272 | 269 |
| Credydwyr eraill | 588 | 97 |
| Incwm cronedig a gohiriedig | 11,809 | 11,620 |
| Yn ddyledus i Gynulliad Cenedlaethol Cymru | 1,630 | - |
| Costau cronni ar gyfer cau | 2,813 | - |
| | 18,016 | 12,469 |

Ni all y Cyngor Cenedlaethol dynnu ar ariannau banc cwmnïau TEC sydd ar ôl fydd yn cael eu defnyddio i dalu dyledion sydd heb eu talu ac unrhyw weddillion sydd ar ôl i'w hildio i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

# Nodiadau *(parhad)*

## 19 Credydwyr: symiau sy'n dod yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn

| | Grŵp 2002 £'000 | Cyngor 2002 £'000 |
|---|---|---|
| Incwm cronedig a gohiriedig | **298** | **-** |

## 20 Darpariaethau ar gyfer dyledion a chodiannau

| | Cyngor 2002 £'000 | Grŵp 2002 £'000 |
|---|---|---|
| Ar ddechrau'r cyfnod | - | - |
| Darpariaethau a sefydlwyd gan y TECs cyn 1 Ebrill 2001 | - | 5,213 |
| Darpariaethau ychwanegol ar gyfer y cyfnod i'w talu o'r cyfrif Incwm a Gwariant | 2,660 | 2,864 |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn ystod y cyfnod | - | (2,134) |
| **Ar ddiwedd y cyfnod** | **2,660** | **5,943** |

Wedi ei gynnwys yn y gost yma i'r Cyfrif Incwm a Gwariant ar gyfer y cyfnod mae darpariaeth o £2,660,000 mewn perthynas â'r costau amcangyfrifiedig o ddiswyddiadau sy'n gysylltiedig gyda chynlluniau ad-drefniant y Cyngor a gyhoeddwyd ym Mawrth 2002.

Mae Darpariaethau Grŵp yn cynnwys £1,993,000 hefyd sy'n ad-daladwy i'r Cynulliad Cenedlaethol pan ddaw'r cwmnïau TEC i ben a £ 1,290,000 i dalu costau terfynu eraill a ragwelwn yn cynnwys treuliau cyfreithiol ac ad-daliad ariannau grant i gyrff Ewropeaidd.

## 21 Ymrwymiadau cyfalaf

| | Grŵp 2002 £'000 | Cyngor 2002 £'000 |
|---|---|---|
| Wedi eu contractio | **63** | **63** |

# Nodiadau *(parhad)*

## 22 Ymrwywymiadau ariannol

| | £'000 |
|---|---|
| Grantiau refeniw (a) | **163,456** |
| Projectau Ewropeaidd (b) | **15,787** |
| | **179,243** |

(a) Bydd y symiau yma wedi eu hariannu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru

(b) Bydd y projectau Ewropeaidd wedi eu hariannu fel a ganlyn:

| | £'000 |
|---|---|
| Grantiau ESF/ERDF | **7,488** |
| Cronfeydd Defnyddio Gwybodaeth gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru | **2,913** |
| Grant cymorth | **360** |
| Ariannu cyfatebol gan GCAUC | **4,027** |
| Ariannu cyfatebol arall | **999** |
| | **15,787** |

Dydi hi ddim yn bosib i fesur cyfanswm ymrwymiadau project Ewropeaidd yn y dyfodol a etifeddwyd gan y cwmnïau TEC am fod nifer sydd wedi eu rheoli gan y Cyngor erbyn hyn yn cael proffil newydd. Mae'r ffigur yn yr adroddiad yn ymwneud gyda'r projectau a etifeddwyd gan y CCABC gynt yn unig.

Dyma'r ymrwymiadau blynyddol dan brydlesau gweithredu na ellir eu dileu :

| | Tir ac Adeiladau 2002 £'000 | Arall 2002 £'000 |
|---|---|---|
| **Grŵp a Chyngor** | | |
| Prydlesu gweithredu sy'n dod i ben: | | |
| O fewn blwyddyn | **-** | **12** |
| Yn yr ail - pumed flwyddyn yn gynwysedig | **261** | **27** |
| Dros bum mlynedd | **353** | **-** |
| | **614** | **39** |

## Nodiadau *(parhad)*

### 23 Colledion a thaliadau arbennig

| | Grŵp 2002 £'000 | Cyngor 2002 £'000 |
|---|---|---|
| Taliadau *ex gratia* | **2** | **-** |
| Taliadau ofer | **2** | **2** |
| Dyledion difrifol/nad oes modd eu hadennill | **25** | **4** |
| | **29** | **6** |

### 24 Datganiad symudiad ar gronfeydd

| **Grŵp** | **Gran Gohiriedig y Llywodraeth £'000** | **Cyfrif Incwm a Gwariant £'000** | **Cronfa ailbrisio £'000** | **Cyfanswm £'000** |
|---|---|---|---|---|
| Ar ddechrau'r cyfnod | - | - | - | - |
| Cronfeydd wedi eu trosglwyddo o GCABC gynt ar 1 Ebrill 2001 | 142 | 4,821 | - | **4,963** |
| Cronfeydd y cwmnïau TEC ar 1 Ebrill 2001 | - | 1,357 | - | **1,357** |
| Addasiad gwerth teg Asedau a Benthyciadau Sefydlog | - | - | 1,286 | **1,286** |
| Y Grant cymorth cyfalaf a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod | 1,106 | - | - | **1,106** |
| Y symiau a ryddhawyd - Dibrisiad | (376) | - | (335) | **(711)** |
| Y symiau a ryddhawyd – Gwerthu Asedau | - | - | (14) | **(14)** |
| Y diffyg ar gyfer y cyfnod | - | (9,399) | - | **(9,399)** |
| **Ar ddiwedd y cyfnod** | **872** | **(3,221)** | **937** | **(1,412)** |

| **Cyngor** | **Grant Gohiriedig y Llywodraeth £'000** | **Cyfrif Incwm a Gwariant £'000** | **Cronfa ailbrisio £'000** | **Cyfanswm £'000** |
|---|---|---|---|---|
| Ar ddechrau'r cyfnod | - | - | - | - |
| Cronfeydd wedi eu trosglwyddo o GCABC gynt ar 1 Ebrill 2001 | 142 | 4,821 | - | **4,963** |
| Addasiad gwerth teg Asedau a Benthyciadau Sefydlog | - | - | 1,286 | **1,286** |
| Y Grant cymorth cyfalaf a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod | 1,106 | - | - | **1,106** |
| Y symiau a ryddhawyd - Dibrisiad | (376) | - | (335) | **(711)** |
| Y symiau a ryddhawyd – Gwerthu Asedau | - | - | (14) | **(14)** |
| Y diffyg ar gyfer y cyfnod | - | (9,877) | - | **(9,877)** |
| **Ar ddiwedd y cyfnod** | **872** | **(5,056)** | **937** | **(3,247)** |

## Nodiadau *(parhad)*

### 25 Dyledion achlysurol

Nid oedd dyledion achlysurol ar 31 Mawrth 2002.

### 26 Cymodi diffyg gweithredu i weithredu llifau ariannol

| | Grŵp 2002 £'000 | Cyngor 2002 £'000 |
|---|---|---|
| Diffyg gweithredu (cyn cyllido ac ariannau neilltuedig) | **(7,878)** | **(7,772)** |
| Codiannau tybiannol | **147** | **51** |
| Codiannau dibrisiad | **737** | **711** |
| Grantiau cyfalaf gohiriedig a ryddhawyd ar gyfer incwm | **(376)** | **(376)** |
| Diffyg/(cynnydd) mewn dyledwyr | **(3,401)** | **(3,657)** |
| Dyledwyr a gyflwynwyd ar 1 Ebrill 2001 | **5,756** | **2,374** |
| (Diffyg)/cynnydd mewn credydwyr | **18,314** | **12,469** |
| Credydwyr a gyflwynwyd ar 1 Ebrill 2001 | **(46,912)** | **(860)** |
| Symudiad ar Ddarpariaethau | **(2,134)** | **-** |
| **Mewnlif/(all-lif) arian net o weithgareddau gweithredol** | **(35,747)** | **2,940** |

### 27 Dadansoddiad ariannau net

| **Grŵp** | Ar ddechrau'r cyfnod £'000 | Ar 1 Ebrill 2001 £'000 | Llif arian £'000 | Newidiadau eraill nad ydynt yn ariannol £'000 | **Ar ddiwedd y cyfnod £'000** |
|---|---|---|---|---|---|
| Arian yn y llaw ac yn y banc | - | 48,040 | (31,579) | - | **16,461** |
| Dyledwyr – benthyciadau wedi eu sicrhau | - | - | - | 654 | **654** |
| Grantiadau gohiriedig y llywodraeth | - | (142) | (1,106) | 376 | **(872)** |
| **Cyfanswm** | **-** | **47,898** | **(32,685)** | **1,030** | **16,243** |

| **Cyngor** | Ar ddechrau'r cyfnod £'000 | Ar 1 Ebrill 2001 £'000 | Llif arian £'000 | Newidiadau eraill nad ydynt yn ariannol £'000 | **At end of period £'000** |
|---|---|---|---|---|---|
| Arian yn y llaw ac yn y banc | - | - | 6,416 | - | **6,416** |
| Dyledwyr – benthyciadau wedi eu sicrhau | - | - | - | 654 | **654** |
| Grantiadau gohiriedig y llywodraeth | - | (142) | (1,106) | 376 | **(872)** |
| **Cyfanswm** | **-** | **(142)** | **5,310** | **1,030** | **6,198** |

# Nodiadau (parhad)

## 28 Cynlluniau pensiwn

Fel a esboniwyd yn nodyn 1, mae'r Cyngor yn aelod o gynllun pensiwn sy'n darparu budd-dâl wedi ei seilio ar y taliad pensiynadwy terfynol. Am na all y Cyngor bennu ei gyfran o asedau a dyledion y cynllun ar sail cyson a rhesymol, fel mae 'Budd-daliadau ymddeol' FRS17 wedi ei ganiatáu mae'r cynllun wedi ei gyfiawnhau yn y datganiadau ariannol yma fel pe bai'r cynllun yn gynllun cyfraniad diffiniedig.

Mae budd-daliadau pensiwn wedi eu darparu drwy Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) y mae amodau'r Deddfau Pensiwn 1965 a 1972 ac addasiadau dilynol yn berthnasol iddo. Mae hwn yn gynllun statudol sy'n darparu budd-daliadau ar sail "cyflog terfynol" ar yr oedran ymddeol arferol o 60. Mae'r budd-daliadau yn cronni ar gyfradd o un rhan o 80 o'r cyflog pensiynadwy ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal â hynny, mae swm sy'n gyfatebol â 3 blynedd o bensiwn yn daladwy wrth ymddeol. Mae'r aelodau'n talu cyfraniadau o 1.5% o enillion pensiynadwy. Mae'r pensiynau'n cynyddu yn unol â'r Mynegai Pris Adwerthu. Pan fydd pobl farw, bydd y pensiynau'n daladwy i'r partneriaid sy'n eu goroesi ac mae hefyd yn darparu gwelliant i'r gwasanaeth wrth gyfrifo pensiwn y partner. Mae'r gwelliant yn dibynnu ar hyd y gwasanaeth ac ni all fod yn fwy na 10 mlynedd. Mae ymddeoliad meddygol yn bosib i rywun sydd â salwch difrifol. Yn yr achos yma, mae'r pensiynau'n cael eu talu ar unwaith heb ostyngiad actiwaraidd a gyda gwelliant yn y gwasanaeth fel ar gyfer pensiynau gwŷr/gwragedd gweddw.

Mae'r PCSPS yn gynllun budd-daliadau diffiniedig cyflogwr lluosog heb ei ariannu ond ni all y Cyngor bennu ei gyfran o'r asedau a'r dyledion tanategol. Gweithredwyd prisiad llawn ar Fawrth 1af 1999. Mae manylion i'w cael yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet – Pensiynau Sifil. (www.civilservice-pensions.gov.uk)

Talwyd cyfraniadau cyfan o £1,524,000 ar ran y staff i'r Tâl-feistr Cyffredinol ar gyfer y cyfnod yn gorffen Mawrth 31 2002 ar gyfraddau oedd wedi eu pennu o bryd i'w gilydd gan Actiwariaeth y Llywodraeth a dan gyngor y Trysorlys. Roedd rhain yn amrywio o 12% i 18.5% o daliad gros ar gyfer y cyfnod.

Mae'r grŵp hefyd yn gweithredu nifer o gynlluniau eraill; rhai cyfraniad diffiniedig a budd-dâl diffiniedig, sydd yn y broses o ddod i ben. Ni thalwyd cyfraniadau yn ystod y cyfnod. Gallwch weld mwy o fanylion y cynlluniau yma yn y datganiadau ariannol a statusol unigol ar gyfer Masnachu ELWa Cyf, Cyngor Hyfforddiant a Menter Canolbarth Cymru Cyf, Cyngor Hyfforddiant a Menter Gogledd Cymru Cyf, Cyngor Hyfforddiant a Menter Gorllewin Cymru Cyf a Chyngor TECs Cymru.

## 29 Cymodi symudiad ariannau

| | Grŵp 2002 £'000 | Cyngor 2002 £'000 |
|---|---|---|
| **Y diffyg ar gyfer y cyfnod ariannol** | **(9,399)** | **(9,877)** |
| Symudiad grant gohiriedig y llywodraeth | 730 | 730 |
| Symudiad ariannau ailbrisiad | 937 | 937 |
| **Gostyngiad net mewn ariannau** | **(7,732)** | **(8,210)** |
| Ariannau wedi eu trosglwyddo o'r CCABC gynt ar 1 Ebrill 2001 | 4,963 | 4,963 |
| Ariannau TEC ar 1 Ebrill 2001 | 1,357 | - |
| **Ariannau cau** | **(1,412)** | **(3,247)** |

# Nodiadau ( parhad)

### 30 Cyswllt Gwaith

Nid yw'r cyfrifon yma'n cynnwys cyfran un rhan o saith y Cyngor Cenedlaethol o asedau net Cyswllt Gwaith, menter ar y cyd rhwng Cyngor Hyfforddiant a Menter Gogledd Cymru, y Cwmni Gyrfaoedd, Bwrdd Datblygu Cymru, Cyngor Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir Gwynedd, a Chyngor Sir Ynys Môn. Nid yw cyfrifon Cyswllt Gwaith wedi eu harchwilio ar gyfer 2001-02 ar gael i'r Cyngor Cenedlaethol.
Fodd bynnag, ym marn y Cyngor Cenedlaethol, nid yw eithriad y gweddill yma'n angenrheidiol er mwyn deall y cyfrifon yma.

### 31 Gweddillion a drosglwyddwyd i'r Cyngor Cenedlaethol

a) Roedd y gweddillion a drosglwyddwyd o'r CCABC gynt i'r Cyngor Cenedlaethol ar Ebrill 1 2001 yn cynnwys y canlynol:

| | £000 |
|---|---:|
| Asedau sefydlog | 142 |
| Dyledwyr | 2,374 |
| Arian mân | 3,307 |
| Credydwyr | (860) |
| Asedau net | **4,963** |

Arianwyd gan:

| | £000 |
|---|---:|
| Cronfa Grant Gohiriedig y Llywodraeth | 142 |
| Cyfrif Incwm a Gwariant | 4,821 |
| | **4,963** |

b) Dyma'r gweddillion TEC ar 1 Ebrill 2001:

| | Canolbarth Cymru, £000 | Gogledd Cymru, £000 | Masnachu ELWa Cyf, £000 | De Orllewin Cymru, £000 | Cyngor TECs Cymru, £000 | Cyfanswm, £000 |
|---|---:|---:|---:|---:|---:|---:|
| Asedau Sefydlog | - | - | 1,200 | - | - | **1,200** |
| Dyledwyr | 91 | 974 | 1,010 | 1,221 | 86 | **3,382** |
| Arian | 2885 | 8,392 | 27,384 | 9,004 | 375 | **48,040** |
| Credydwyr | (2,976) | (7,330) | (28,394) | (7,048) | (304) | **(46,052)** |
| Asedau net | - | 2,036 | 1,200 | 3,177 | 157 | **6,570** |
| Darpariaethau ar gyfer dyledion a chodiannau | - | (2,036) | - | (3,177) | - | **(5,213)** |
| Cyfrif Incwm a Gwariant | - | - | (1,200) | - | (157) | **(1,357)** |

# Nodiadau (parhad)

### 32 Datgelion partïon perthnasol

Ystyrir Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn barti perthnasol. Yn ystod y cyfnod, cafodd y Cyngor Cenedlaethol amrywiol drafodion materol gyda'r Cynulliad a gyda chyrff eraill y mae'r Cynulliad wedi'i ystyried yn adran rieiniol ohonynt, e.e. Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

Yn ystod y cyfnod aeth y cwmni hefyd i nifer o drafodion gyda'i fusnes arferol, gyda sefydliadau yr oedd gan y bobl hynny oedd yn aelodau Bwrdd neu'n Rheolwyr Uwch ddiddordeb ynddynt. Gallwn grynhoi'r rhain fel a ganlyn:

| **Aelod o'r Cyngor** | **Perthynas/Trafodion Busnes** | **Gwerth Ariannol Trafodion NCETW £** |
|---|---|---|
| Enid Rowlands | Mae ei phartner Huw Vaughan Thomas yn - | |
| | Aelod o GCAUC | **dim** |
| | Ymddiriedolwr Cenedlaethol RNID Cymru | **546** |
| | Aelod o Ymddiriedolaeth y Tywysog – Cyngor Cymru | **281,164** |
| | Mae Ms Rowlands yn aelod o Awdurdod S4C | **27,045** |
| Sheila Drury | Aelod bwrdd Buddsoddwyr mewn Pobl Prydain | **68,676** |
| | Aelod o Gyngor Prifysgol Cymru Bangor | **2,910249** |
| | Llywodraethwr Sefydliad Gogledd Ddwyrain Cymru | **110,315** |
| | Llywodraethwr Coleg Iâl | **16,678,938** |
| Dr Sonia Reynolds | Cyfarwyddwr Dysg –Asiantaeth datblygiad dysgu a sgiliau Cymru | **15,100** |
| | Aelod o bwyllgor cynghori UFI Cymru | **15,000** |
| Dr. Haydn Edwards | Pennaeth Coleg Menai | **11,135,905** |
| | Cyfarwyddwr Gyrfaoedd Cymru – Y Gogledd Orllewin | **87,891** |
| James Gibson Watt | Llywodraethwr Ysgol Uwchradd Gwernfed | **6,306** |
| Keith McDonogh | Cyfarwyddwr Gyrfaoedd Cymru ( Y Gogledd Ddwyrain ) | **48,606** |
| Yr Athro Syr Adrian Webb | Is-Ganghellor Prifysgol Morgannwg | **427,534** |
| | Cyfarwyddwr Anweithredol Ymddiriedolaeth Iechyd Pontypridd a Rhondda | **675** |
| <u>Rheolwyr Uwch</u> | | |
| David Morgan | Aelod – Bwrdd Astudiaethau – Prifysgol Cymru, Caerdydd | **873,800** |
| Richard Hart | Partner wedi ei Gyflogi gan Brifysgol Cymru Coleg Casnewydd | **725,353** |
| Katie Blackburn | Aelod – Cyngor RNID Cymru | **546** |

**Adroddiad yr Archwiliwr Cyffredinol Cymru**
**Y Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant: Cyfrifol ar gyfer y cyfnod yn diweddu 31 Mawrth 2002**

## Cyflwyniad

1. Sefydlwyd y Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (y Cyngor Cenedlaethol) ar 10 Hydref 2000, yn unol ag Adran 30 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000. Dan Atodiad 4, Paragraff 14(4) y Ddeddf honno, mae rhaid i mi, fel Archwiliwr Cyffredinol Cymru, archwilio, ardystio ac adrodd ar gyfrifon y Cyngor Cenedlaethol.

2. Dyma'r set gyntaf o gyfrifon a gyhoeddwyd gan y Cyngor Cenedlaethol, sy'n cwmpasu'r cyfnod un deg saith mis o 10 Hydref 2000 tan 31 Mawrth 2002. Fy nhrefn arferol yw cyhoeddi adroddiad traethiadol ar gyfrifon cyntaf corff cyhoeddus newydd, gan esbonio sail statudol y corff a, phan fo hynny'n berthnasol, adolygu'r broses lle y trosglwyddir yr asedau, yr ymrwymiadau, y staff a'r swyddogaethau o'r cyrff yr oedd yn eu holynu. Nodir y deunydd hwn ym mharagraffau 5 i 19 fy adroddiad.

3. Er fy mod yn fodlon bod y cyfrifon yn rhoi darlun cywir a theg, ym mhob ystyr materol, o sefyllfa ariannol y Cyngor Cenedlaethol ar 31 Mawrth 2002, ac y cyflwynir y trafodion yn gywir, rwyf wedi seilio fy marn archwilio ar reoleidd-dra'r gwariant yn y cyfrifon. Mae hyn oherwydd i'r Cyngor Cenedlaethol wario tua £2.2 miliwn yn gyfan gwbl o ganlyniad i 13 contract yr ymrwymwyd iddynt yn ystod y cyfnod dan sylw, na chafwyd cymeradwyaeth angenrheidiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar eu cyfer, ac a oeddent felly, yn afreolaidd.

4. Yn ogystal â'i gynnwys safonol felly, mae'r adroddiad hwn hefyd yn nodi ym mharagraffau 20 i 72, yr amgylchiadau a arweiniodd at y gwariant afreolaidd, manylion y contractau afreolaidd eu hunain a'r camau y mae'r Cyngor Cenedlaethol wedi eu cymryd, a'r camau y mae'n eu cymryd ar hyn o bryd, er mwyn mynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd. Yn olaf, mae'r adroddiad yn cyfeirio at ddefnyddio cymal cyfrinachedd mewn cytundeb setlo terfynol a gytunwyd rhwng y Cyngor Cenedlaethol ac aelod o'i staff (paragraffau 73 i 80).

## Creu'r Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant

### *Cefndir statudol*

5. Ffurfiwyd Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant ar 10 Hydref 2000, dan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000. Bu'r Ddeddf hon yn gyfrifol am ffurfio'r corff cyfatebol yn Lloegr hefyd, sef y Cyngor Dysgu a Sgiliau. Mae'r Cyngor Cenedlaethol yn Gorff Cyhoeddus dan Nawdd y Cynulliad, wedi'i ariannu gan gymorth grant o dros £371 miliwn yn 2001-02. Ar y cyd â Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, mae'n gyfrifol am ariannu'r holl ddarpariaeth addysg a hyfforddiant ôl-16 yng Nghymru. Mae'r ddau gorff yn gweithredu dan enw 'ELWa',

sy'n golygu manteisio ar rywbeth yn Gymraeg, yn ogystal â bod yn acronym o **E**ducation and **L**earning **Wa**les.

6. Roedd creu'r Cyngor Cenedlaethol yn cyd-fynd ag argymhellion Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 y Cynulliad, ar ôl iddo gynnal ei adolygiad o'r cynigion a wnaethpwyd yng Nghynllun Gweithredu'r Gweithgor Addysg a Hyfforddiant, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 1999. Cymeradwywyd hwn gan y Cynulliad yn ystod sesiwn lawn ar 1 Chwefror 2000. Goruchwyliwyd y paratoadau ar gyfer trosglwyddo'r swyddogaethau i'r Cyngor a chyrff olynol eraill, gan Fwrdd Rheoli Prosiect a Grðp Llywio Prosiect, dan gadeiryddiaeth swyddogion y Cynulliad, ac a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r holl sefydliadau a oedd yn uniongyrchol gysylltiedig, yn ogystal â buddiannau 'cwsmeriaid' ehangach. Cynorthwywyd Bwrdd Rheoli'r Prosiect gan 'Grwpiau Strand', dan gadeiryddiaeth aelodau Bwrdd y prosiect, a roddodd gyngor mewn meysydd penodol megis adnoddau dynol a strwythurau sefydliadol, cyllid ac ariannu, parhad y busnes a therfynu.

7. Penodwyd Cadeirydd a Phrif Weithredwr (sef y Swyddog Cyfrifyddu hefyd) y Cyngor Cenedlaethol newydd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 10 Hydref 2000. Parhaodd y Prif Weithredwr i gyflawni ei ddyletswyddau fel Prif Weithredwr Cyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru tan 31 Mawrth 2001. Yn ystod y cyfnod hwn hefyd, ac ar ôl hynny, parhaodd i fod yn Brif Weithredwr Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Penodwyd aelodau eraill y Cyngor ym mis Chwefror 2001 ac yna, roedd y Cyngor yn medru cynnal ei gyfarfod cyntaf. Penodwyd Cyfarwyddwyr y Cyngor Cenedlaethol ar 2 Ionawr 2001, er mai penodiadau dros dro oedd tri ohonynt. Trosglwyddwyd gweddill y staff, sef 570 ohonynt, gan gynnwys y Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Sicrhau Risg, i'r Cyngor Cenedlaethol ar 1 Ebrill 2001 o'r cyrff yr oedd yn eu holynu. Dywedodd y Cyngor Cenedlaethol wrthyf fod hyn wedi golygu nad oedd llawer o amser ganddo i ymgymryd â'i gyfrifoldebau a bod ei staff, gan gynnwys y staff uwch, wedi bod yn cyflawni eu cyfrifoldebau blaenorol tan 31 Mawrth 2001.

8. Y prif amcan wrth ffurfio'r Cyngor Cenedlaethol oedd sicrhau cynllunio ac ariannu strategol ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-16 yng Nghymru, ac eithrio addysg uwch. Yn flaenorol, gweinyddwyd y broses o ariannu swyddogaethau a ddaeth yn gyfrifoldebau'r Cyngor Cenedlaethol, gan Gyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru, y pedwar TEC Cymreig a'r Awdurdodau Addysg Lleol. Diben y Cyngor Cenedlaethol yw hyrwyddo dysgu gydol oes a chynnig cyfleoedd dysgu o safon byd er mwyn i bawb yng Nghymru gyrraedd eu potensial. Mae'n ceisio rhoi trefn ar sbectrwm cyfan addysg a hyfforddiant ôl-16 (ac eithrio addysg uwch) yng Nghymru, a'i wella, ac roedd yn rhaid iddo hefyd sicrhau arbedion o ran ei gostau rhedeg blynyddol.

*Cyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru*

9. Ffurfiwyd Cyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru fel Corff Cyhoeddus Anadrannol yn y Swyddfa Gymreig ym 1992, a daeth yn Gorff Cyhoeddus dan Nawdd y Cynulliad ar 1 Gorffennaf 1999. Yn ystod 2000-01, bu'n gyfrifol yn bennaf am weinyddu'r arian a ddosbarthwyd ar ffurf grantiau i 27 sefydliad addysg bellach, sef cyfanswm o tua £217 miliwn. Mae'r sefydliadau hyn (26 erbyn hyn oherwydd bod dau ohonynt wedi uno ym mis Awst 2001) yn darparu ystod o gyrsiau addysg a hyfforddiant ôl-16, sy'n amrywio o fedrau sylfaenol i gymwysterau galwedigaethol, a chyrsiau a gynlluniwyd i hyrwyddo mynediad i addysg uwch. Dan Ddeddf Addysg Bellach ac Addysg Uwch 1992, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, fi oedd archwiliwr allanol statudol Cyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru.

10. Dan Gymal 91 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000, terfynwyd Cyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru ar 1 Ebrill 2001, a throsglwyddwyd ei holl staff, ei eiddo, ei hawliau a'i ymrwymiadau i'r Cyngor Cenedlaethol. Yn ogystal, trosglwyddodd Deddf 2000 y cyfrifoldebau dros yr holl weithgareddau a gyflawnwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru yn flaenorol, i'r Cyngor Cenedlaethol, ac eithrio rhaglen asesu ansawdd a drosglwyddwyd i Estyn.

*Cynghorau Hyfforddi a Menter*

11. Cyn sefydlu'r Cyngor Cenedlaethol, roedd pedwar Cyngor Hyfforddi a Menter (TEC) yng Nghymru a oedd yn cwmpasu ardaloedd De Ddwyrain, Gogledd, Canolbarth a Gorllewin Cymru. Roeddent yn gwmnïau preifat wedi'u cyfyngu trwy warant, ac yn cael arian gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru dan gontractau blynyddol i ddarparu rhaglenni hyfforddiant a rhoi cyngor a chymorth i fusnesau lleol. Roedd pob TEC wedi penodi cwmni o gyfrifwyr o'r sector preifat i fod yn archwilwyr allanol iddynt. Fel Archwiliwr Cyffredinol Cymru, roedd gennyf hawliau i archwilio'r TECs mewn perthynas â'm archwiliadau blynyddol o drefniadau ariannu rhaglenni'r TECs dan eu contractau â Chynulliad Cenedlaethol Cymru, ond nid oedd gennyf unrhyw gylch gorchwyl statudol i archwilio gweithgareddau'r TECs eu hunain.

12. Ym mis Gorffennaf 2000, cyhoeddodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru hysbysiadau y byddai'r contractau hyn gyda phob TEC yn dod i ben ganol nos, 31 Mawrth 2001, ac y byddent yn rhwym i weithrediad y Mesur Dysgu a Sgiliau. Roedd yr hysbysiadau'n nodi y byddai'r Cyngor Cenedlaethol newydd yn etifeddu swyddogaethau'r TECs a oedd yn ymwneud â medrau, ac y byddai'r swyddogaethau eraill yn cael eu trosglwyddo i gyrff eraill a fyddai'n eu holynu.

13. Roedd Adran 93(2) y Ddeddf Dysgu a Sgiliau, yn rhoi'r pŵer i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drosglwyddo eiddo, hawliau ac ymrwymiadau'r TECs i'r Cyngor Cenedlaethol. Roedd Cynllun 2001 y Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (Trosglwyddo Eiddo, Hawliau ac Ymrwymiadau) yn rhestru holl fuddiannau pob TEC o ran eiddo a'r personél a gyflogwyd ganddynt, a fyddai'n cael eu trosglwyddo i'r Cyngor Cenedlaethol ar 1 Ebrill 2001. Y prif

egwyddor wrth benderfynu pa asedau a phersonél y dylid eu trosglwyddo i'r Cyngor Cenedlaethol, oedd y dylai'r rhain gyd-fynd â'r gweithgareddau a drosglwyddwyd i'r Cyngor Cenedlaethol, yn benodol, gweithgareddau addysg a hyfforddiant y TECs a oedd yn ymwneud â medrau.

14. Er y trosglwyddwyd gweithgareddau cyn Gyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru yn gyfan gwbl bron i'r Cyngor Cenedlaethol, trosglwyddwyd gweithgareddau amrywiol y TECs a oedd yn ymwneud â swyddogaethau ar wahân i'r rhai a oedd yn ymwneud â medrau, i amrediad o gyrff olynol, sef:

- y **Cwmnïau Gyrfaoedd yng Nghymru,** a ddaeth yn gyfrifol am y Fenter Arweiniad i Oedolion, Porth yr Ifanc ac elfennau gwaith/menter y rhaglenni Cyswllt Busnes ac Addysg;
- **Awdurdod Datblygu Cymru,** a ddaeth yn gyfrifol am swyddogaethau menter nad oeddent yn ymwneud â medrau (Cychwyn Busnes, Menter Masnachwyr Unigol a rhaglenni Diagnostig ac Ymgynghorol); a'r
- **Awdurdodau Lleol,** a ddaeth yn gyfrifol am y Fenter Mynediad Ieuenctid.

15. Gan nad oedd unrhyw sail statudol i'r broses o drosglwyddo asedau a/neu bersonél o'r TECs i'r cyrff olynol hyn, trefnodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru bod y trosglwyddiadau hyn yn cael eu gwneud dan drefniadau cytundebol ar wahân, gyda chymorth Gweithredoedd Dosbarthu yn ôl yr angen.

***Cwmnïau TEC a oedd yn weddill***

16. Ar ôl trosglwyddo'r asedau a'r personél i'r cyrff olynol ar 1 Ebrill 2001, mae'r TECs eu hunain wedi parhau i fodoli er mwyn gallu terfynu eu materion mewn ffordd drefnus. Ar 1 Ebrill 2001, daeth y Cyngor Cenedlaethol yn gyfrifol am yr holl gwmnïau TECs a oedd yn weddill a Chyngor TECs Cymru, trwy gyfrwng cyfres o newidiadau a wnaethpwyd i Femoranda ac Erthyglau Cymdeithasiad TEC, ac wrth i gyfarwyddwyr y TECs ymddiswyddo er mwyn i gyfarwyddwyr a enwebwyd gan y Cyngor Cenedlaethol gymryd eu lle.

17. Ac eithrio TEC De Ddwyrain Cymru, a fydd yn parhau i fasnachu, er ar lefel lawer yn llai, fel is-gwmni sy'n llawn eiddo i'r Cyngor Cenedlaethol, 'ELWa Trading Ltd', bydd y Cyngor Cenedlaethol yn terfynu'r cwmnïau TEC ar ôl cwblhau'r holl fusnes sy'n weddill. (Mae'r busnes a gyflawnir gan ELWa Trading Ltd yn ymwneud â phrydlesu a llogi swyddfeydd ac ystafelloedd cyfarfod mewn eiddo a etifeddwyd, sef y Technocentre yng Nghaerdydd. Dywedodd y Cyngor Cenedlaethol wrthyf ei fod yn bwriadu gwaredu'r eiddo hwn cyn gynted ag y gellir trefnu ei werthu.) Tan hynny, rhaid i bob cwmni TEC baratoi cyfriflenni ariannol blynyddol, a gyfunwyd fel rhan o gyfrifon cyfunol y Cyngor Cenedlaethol ei hun. Fel Archwiliwr Cyffredinol Cymru, nid oes gennyf unrhyw gylch gorchwyl statudol i archwilio cyfrifon y cwmnïau TEC, ac mae'r rôl hwn yn parhau i gael ei gyflawni gan yr archwilwyr a

benodwyd ganddynt. Mae paragraffau 33 i 37 yr adroddiad hwn yn nodi'r trefniadau cyfrifyddu yn ymwneud â throsglwyddo asedau i'r Cyngor Cenedlaethol ar 1 Ebrill 2001, a'r broses o gyfuno canlyniadau, asedau ac ymrwymiadau'r cwmnïau TEC sy'n weddill fel rhan o gyfrifon grŏp y Cyngor Cenedlaethol ar 31 Mawrth 2002.

***Awdurdodau Lleol***

18. Ar 1 Ebrill 2001, yn unol ag Adran 32 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000, rhoddwyd pwerau i'r Cyngor Cenedlaethol i ariannu rhan fwyaf y ddarpariaeth addysg i oedolion ac addysg barhaus yng Nghymru, gan gynnwys y ddarpariaeth a arferai awdurdodau lleol yng Nghymru ei darparu. Ar 1 Ebrill 2002, daeth y Cyngor yn gyfrifol am ariannu dosbarthiadau chwech mewn ysgolion hefyd, er bod yr awdurdodau lleol yn parhau i fod yn gyfrifol am y staff a'r asedau sefydlog perthnasol.

***Cyngor TECs Cymru***

19. Ar 1 Ebrill 2001, trosglwyddwyd Cyngor TECs Cymru i'r Cyngor Cenedlaethol hefyd, ac mae wedi parhau i fodoli er mwyn gallu dirwyn ei faterion i ben mewn ffordd drefnus. Sefydlwyd y corff hwn ym 1997 ac fe'i ariannwyd gan y pedwar TEC. Ei brif weithgarwch oedd darparu gwasanaethau cymorth a strategaethau marchnata, cysylltiadau cyhoeddus a chyfathrebu i'r TECs yng Nghymru. Pan drosglwyddwyd gweithgareddau TECs ar 1 Ebrill 2001, nid oedd Cyngor TECs Cymru yn weithredol mwyach. Trosglwyddwyd ei staff drwy TEC De Ddwyrain Cymru i'r Cyngor Cenedlaethol ar 1 Ebrill 2001, ynghyd â'i ymrwymiadau a'i asedau a oedd yn weddill, a chaiff y rhain eu cynnwys hefyd yng nghyfrifon cyfunol y Cyngor Cenedlaethol ar gyfer y cyfnod yn dod i ben ar 31 Mawrth 2002.

**Strwythur sefydliadol y Cyngor Cenedlaethol**

20. Wrth bennu ei strwythur sefydliadol, penderfynodd y Cyngor Cenedlaethol weithredu trwy leoli ei Bwyllgor Gweithredol, gan gynnwys ei staff uwch, mewn gwahanol swyddfeydd ledled Cymru a etifeddwyd gan y Cyngor, yn hytrach na'u lleoli mewn un lleoliad sy'n bencadlys. Ystyriodd y Cyngor Cenedlaethol y byddai'r strwythur hwn yn galluogi'r corff newydd i ymateb mewn ffordd hyblyg i anghenion rhanbarthol gwahanol trwy fod yn agos i fusnesau, sefydliadau partner a darparwyr addysg a hyfforddiant ym mhob cwr o Gymru. Dywedodd y Cyngor Cenedlaethol wrthyf bod gan y swyddfeydd rhanbarthol rôl arbennig o bwysig yn y Consortia Cymunedol dros Addysg a Hyfforddiant, yn ogystal ag wrth gefnogi gwaith pwyllgorau rhanbarthol statudol y Cyngor Cenedlaethol.

21. Roedd yn rhaid i'r Cyngor gyflawni'r cynlluniau busnes a etifeddodd oddi y wrth y cyrff a olynodd, gan sicrhau bod anghenion dysgwyr ledled Cymru yn cael eu bodloni. Gyda llai na blwyddyn rhwng pasio Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 a'r Cyngor Cenedlaethol yn cychwyn yn llawn ar ei waith, nid oedd unrhyw gyfle ymarferol i weithredu yng nghysgod y drefn flaenorol,

er bod y Gweithgor Addysg a Hyfforddiant yn ei gynllun gweithredu ym 1999, wedi argymell cyfnod o 12 mis i weithredu yng nghysgod y drefn. Gan fod yn ymwybodol o'r angen pennaf i sicrhau parhad y drefn ariannu a'r gwasanaethau i gyflenwyr addysg a hyfforddiant, penderfynodd y Cyngor Cenedlaethol mai'r ffordd orau o gyflawni hyn fyddai trwy fabwysiadu polisi 'busnes fel arfer' yn ystod ei flwyddyn gyntaf. Dywedodd y Cyngor Cenedlaethol wrthyf fod y penderfyniad hwn wedi cael ei ddylanwadu gan anallu'r Cyngor i weithredu awdurdod gweithredol neu awdurdod rheoli cyn 1 Ebrill 2001.

22. Yn ymarferol, roedd hyn yn golygu na newidiwyd rhyw lawer ar y systemau ariannol, y dulliau rheoli, y gweithdrefnau gweithredol, y cyfarwyddiadau desg na'r arferion gwaith yr oedd y staff wedi bod yn gyfarwydd â nhw yn eu sefydliadau blaenorol, pan gawsant eu trosglwyddo i'r Cyngor Cenedlaethol. Dywedodd y Cyngor Cenedlaethol wrthyf ei fod wedi bod yn ymwybodol y byddai hyn o bosibl yn creu gwahaniaethau sylweddol yn nhrefniadau gweithredol swyddfeydd amrywiol y Cyngor Cenedlaethol yn ystod y cyfnod ar ôl 1 Ebrill 2001. Fodd bynnag, roedd y Cyngor Cenedlaethol wedi ystyried y byddai unrhyw ddull gweithredu arall wedi ei gwneud yn amhosibl darparu'r cynlluniau a etifeddodd gan y cyrff a olynodd. Yn ogystal â hynny, roedd o'r farn y byddai'n trin y cyfnod 'busnes fel arfer' i adolygu'r gweithdrefnau a'r strwythurau a etifeddodd, pennu'r rhai a fyddai o'r defnydd mwyaf ac yna datblygu set gydlynol o bolisïau a gweithdrefnau er mwyn eu hymgorffori ar draws yr holl swyddfeydd maes o law.

***Rôl y Cyngor***

23. Nodir cyfansoddiad y Cyngor Cenedlaethol yn Adran 30 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000. Mae Atodiad 4 y Ddeddf honno yn rhoi'r pŵer i Gyngor y corff ddirprwyo swyddogaethau i'w Gadeirydd neu i'r Prif Weithredwr. Yn ogystal, mae'n darparu ar gyfer trefniadau dirprwyo pellach, o'r Cadeirydd i Aelodau eraill y Cyngor, ac o'r Prif Weithredwr i'w staff. Fel sy'n digwydd mewn Cyrff Cyhoeddus eraill dan Nawdd y Cynulliad, mae'r Datganiad Rheoli yn diffinio'r fframwaith y mae'r Cyngor Cenedlaethol yn gweithredu ynddo ac, ynghyd â'r Memorandwm Ariannol, mae'n nodi manylion yr amodau a'r telerau y mae'r Cynulliad yn ufuddhau iddynt wrth ddarparu arian i'r Cyngor Cenedlaethol. Mae'r Datganiad Rheoli a'r Memorandwm Ariannol yn nodi cyfyngiadau unrhyw drefniadau dirprwyo a rheoli eraill hefyd, yn ogystal â rheoliadau a chanllawiau sy'n berthnasol wrth gyflawni cylch gorchwyl y Cyngor Cenedlaethol. Mae'r Memorandwm Ariannol, er enghraifft, yn delio â'r graddau y gall y Cyngor Cenedlaethol drosglwyddo'r cymorth grant o un pennawd cyllideb i un arall, heb orfod cael cymeradwyaeth swyddogion y Cynulliad i wneud hynny.

24. Caiff y ffordd y cynhelir busnes y Cyngor ei lywodraethu gan Reolau Sefydlog sy'n nodi, er enghraifft, rhestr o'r materion a gedwir i'r Cyngor ei hun benderfynu arnynt, y graddau y mae wedi dirprwyo ei gylch gorchwyl i'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr, a rolau ei bwyllgorau amrywiol. Nodaf mai dim ond ar 24 Mai 2002 y rhoddodd y Cyngor gymeradwyaeth ffurfiol

(gydag effaith ôl-weithredol) i'r Rheolau Sefydlog, tua 15 mis ar ôl cyfarfod y Cyngor, ac o ganlyniad, nid oedd unrhyw fynegiad ffurfiol yn bodoli yn ystod y cyfnod hwn ynghylch sut y byddai'r busnes yn cael ei gyflawni.

25. Dywedodd y Cyngor Cenedlaethol wrthyf nad oedd hyn, yn eu barn hwy, wedi cael effaith andwyol ar gyflawniadau'r Cyngor Cenedlaethol yn ystod y cyfnod hwnnw. Roedd hyn oherwydd bod y Cyngor wedi cymryd papurau ar lywodraethu corfforaethol (er enghraifft yn nodi rolau a chyfrifoldebau perthynol y Cadeirydd, y Prif Weithredwr a'r SwyddogCyfrifyddu a'r Cyngor fel cyfan) a ffurfio Pwyllgor Archwilio (gan ganolbwyntio'n arbennig ar reoli risg) yn ystod ei gyfarfod cychwynnol ym mis Chwefror 2001. Yn y cyfarfod hwnnw, roedd y Cyngor wedi ystyried sut i reoli busnes ar y cyd rhwng y Cyngor Cenedlaethol a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, ynghyd â chynllun dirprwyo arfaethedig, er na ddaeth cynllun ffurfiol a gymeradwywyd gan y Cyngor, i rym tan mis Mai 2002. Pennwyd gweithdrefnau disgyblu ym mis Hydref 2001 hefyd.

***Rôl y Prif Weithredwr***

26. Penodir y Prif Weithredwr yn Swyddog Cyfrifydda'r Cyngor Cenedlaethol gan Ysgrifennydd Parhaol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac mae hefyd yn aelod llawn o'r Cyngor. Nodir ei gyfrifoldebau yn arweiniad safonol Cynulliad Cenedlaethol Cymru: 'Cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu Corff Cyhoeddus dan Nawdd y Cynulliad' ac, ar ôl 24 Mai 2002, fe'u diffiniwyd ymhellach gan Reolau Sefydlog y Cyngor Cenedlaethol. Mae'n gyfrifol am sicrhau bod cronfeydd cyhoeddus yn cael eu stiwardio a'u gwario'n gywir, a hefyd, am weithrediadau a rheolaeth y Cyngor Cenedlaethol o ddydd i ddydd. Rhaid iddo hefyd sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Datganiad Rheoli a'r Memorandwm Ariannol a gyhoeddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'r Cyngor Cenedlaethol.

27. Ym mis Ebrill 2001, cyhoeddodd y Prif Weithredwr drefniadau dirprwyo ariannol i Gyfarwyddwyr a staff uwch eraill yn y Cyngor Cenedlaethol. Cafodd y trefniadau hyn a ddirprwywyd, eu ffurfioli yng 'Ngweithdrefnau Caffael' y Cyngor Cenedlaethol a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2002, ac yn fwy diweddar, eu cynnwys yn y 'Rheoliadau Ariannol' a gymeradwywyd yn ffurfiol gan y Cyngor ar 25 Gorffennaf 2002, a ddosbarthwyd i bob aelod o staff ym mis Medi 2002. Rhoddaf sylwadau pellach ar drefniadau rheoli ariannol y Cyngor yn ystod 2001-02 ym mharagraffau 31 i 42 yr adroddiad hwn.

***Y berthynas gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru***

28. Mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn gyfrifol am ariannu addysg uwch yng Nghymru. Yn ystod 2001-02, dosbarthodd bron i £390 miliwn i 14 sefydliad addysg uwch er mwyn talu am addysg, gwaith ymchwil a gweithgareddau cysylltiedig. Cyn 1 Ebrill 2001, roedd ganddo berthynas waith agos gyda chyn Gyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru, gan rannu'r un Prif

Weithredwr, ac wrth i staff eraill ddarparu swyddogaethau gweinyddol ar y cyd ar ran y ddau Gyngor. Ar ôl ffurfio'r Cyngor Cenedlaethol, parhaodd i weithredu'r gweithgor hwn ar y cyd â Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Roedd hyn yn unol â bwriad y Cynulliad i sicrhau datblygiad polisi cydlynol mewn system integredig o addysg a hyfforddiant ôl-16, ond roedd yn golygu bod y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Cyllid a Systemau a nifer o gyfarwyddwyr eraill ac aelodau eraill o staff, yn rhannu eu hamser rhwng gwaith y ddau Gyngor.

***Rôl adran dan nawdd Llywodraeth Cynulliad Cymru***

29. Yn Llywodraeth Cynulliad Cymru, ffurfiwyd yr Adran Dysgu Gydol Oes ar 1 Ebrill 2001 i fod yn adran a fydda'n noddi'r Cyngor Cenedlaethol. Hon yw prif bwynt cyswllt y Cyngor Cenedlaethol gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru, ac mae'n gyfrifol am fonitro gweithgareddau a pherfformiad y Cyngor Cenedlaethol.

***Casgliad ACC: Ar strwythur sefydliadol y Cyngor Cenedlaethol***

30. Mae'r adran hon yn fy adroddiad wedi rhoi crynodeb o nifer o wendidau a oedd yn amlwg yn strwythur sefydliadol y Cyngor Cenedlaethol yn ystod ei fisoedd cyntaf. Yn fy marn i, mae'n anfoddhaol na ymgorfforwyd pileri allweddol llywodraethu corfforaethol cadarn megis Rheolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol ers 1 Ebrill 2001. O ystyried y dasg anodd yr oedd y corff newydd yn ei hwynebu wrth gyfuno chwech diwylliant gweithredol arbennig o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat yn ei swyddfeydd amrywiol ledled Cymru, byddai asesiad risg mwy cynhwysfawr wedi bod o gymorth arbennig yn ystod y cyfnod cyn 1 Ebrill 2001. Mae'n ymddangos hefyd na roddwyd digon o ystyriaeth i rai o'r risgiau o weithredu swyddogaethau wedi'u gwasgaru o sawl swyddfa gwahanol, pan gymerwyd y penderfyniad gan y Cyngor Cenedlaethol y dylai weithredu ar sail 'busnes fel arfer' i ddechrau yn ystod ei flwyddyn gyntaf.

**Rheolaeth Ariannol y Cyngor Cenedlaethol**

***Trefniadau cyfrifyddu***

31. Roedd ffurfio'r Cyngor Cenedlaethol yn cynrychioli proses helaeth o ad-drefnu'r gwaith o weinyddu addysg a hyfforddiant ôl-16 yng Nghymru. Ar 1 Ebrill 2001, etifeddodd y Cyngor Cenedlaethol bum grŵp o staff mewn saith lleoliad ledled Cymru, ynghyd â phum set o systemau cyfrifyddu a gweithredu. Yn ogystal, etifeddodd ymrwymiadau a chynlluniau y cyrff amrywiol yr oedd yn eu holynu. Dywedodd swyddogion y Cyngor Cenedlaethol wrthyf nad oedd gan y corff newydd ddewis ond parhau i weithredu'r systemau cyfrifyddu a'r gweithdrefnau gweithredol arbennig hyn ym mhob lleoliad oherwydd y cyfnod trosglwyddo byr iawn, gan wneud cynlluniau i roi trefn arnynt cyn gynted ag y bo modd.

32. Rhannwyd swyddogaeth ariannol y Cyngor Cenedlaethol yn ôl ffactorau daearyddol yn gyntaf, dan y Cyfarwyddwr Cyllid, gyda dau bennaeth Cyllid, un yn gweithio yn Llanelwy ac yn

gyfrifol am Ogledd a Chanolbarth Cymru, a'r llall yn gweithio yn Llanisien ac yn gyfrifol am Dde Cymru. Crëwyd dwy swydd wrth i'r Cyngor Cenedlaethol gydnabod bod y dasg o roi trefn ar y swyddogaeth ariannol yn dasg sylweddol i'w chyflawni yn ystod ei flwyddyn gyntaf. Roedd gan y ddau brofiad sylweddol o'r rheoliadau sy'n gyfrifol am lywodraethu gweithrediad Corff Cyhoeddus dan Nawdd y Cynulliad ac roeddent yn gyfrifol am weithrediadau ariannol y Swyddfeydd Rhanbarthol yn eu hardaloedd arbennig. Roedd ganddynt gyfrifoldebau ariannol corfforaethol penodol eraill hefyd. O ganlyniad, cynhaliodd y Cyngor Cenedlaethol yr adolygiad y bwriadodd ei gynnal o'i holl weithrediadau a'i strwythurau ac ers 1 Ebrill 2002, mae holl waith gweinyddu ariannol y Cyngor Cenedlaethol wedi'i leoli yn y swyddfa ym Medwas dan un Pennaeth Cyllid.

33. Mae set gyntaf y Cyngor Cenedlaethol o'i gyfrifon a gyhoeddir yn cwmpasu'r cyfnod o un deg saith mis o'r adeg pan y'i sefydlwyd yn ffurfiol ar 10 Hydref 2000 tan 31 Mawrth 2002. Gan na ddechreuodd y Cyngor Cenedlaethol weithredu tan 1 Ebrill 2001, trwy drosglwyddo cyfrifoldebau amrywiol o'r TECs, o'r cyn Gyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru ac o'r awdurdodau lleol, nid yw ei fantolen agoriadol ar 10 Hydref 2000 yn cynnwys unrhyw asedau nac ymrwymiadau. Felly, cafodd y broses o sicrhau asedau amrywiol o gyn Gyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru a'r TECs ar 1 Ebrill 2001 a'r broses o drosglwyddo ymrwymiadau o gyn Gyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru, eu hystyried yn ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn. Yn eu cyfriflenni ariannol 2000-01, roedd Cyfarwyddwyr y TECs wedi nodi gwerth eu hasedau sefydlog yn sero ar 31 Mawrth 2001, gan y cytunwyd y byddai'r asedau'n cael eu trosglwyddo i'r Cyngor Cenedlaethol heb eu hystyried. Cymerwyd yr holl asedau a dderbyniwyd gan y Cyngor Cenedlaethol gan gyrff a oedd yn eu holynu, yn ôl eu gwerth teg wrth iddynt barhau i gael eu defnyddio ar 1 Ebrill 2001, fel yr esbonnir yn Nodyn 13 y cyfrifon.

34. Fel yr esbonnir ym mharagraff 17 uchod, fel is-gwmnïau sy'n llawn eiddo i'r Cyngor Cenedlaethol, mae cyfrifon 2001-02 y cwmnïau TEC sy'n weddill, wedi cael eu cyfuno yng nghyfrifon y Cyngor Cenedlaethol. Cafodd y cyfrifon TEC hynny, a archwiliwyd gan gwmnïau o archwilwyr o'r sector preifat dan Ddeddf Cwmnïau 1985, farn archwilio diamod ar gyfer blwyddyn gyfrifon 2001-02.

35. Bydd TEC De Ddwyrain Cymru yn parhau i fasnachu hyd y gellir rhagweld fel ELWa Trading Ltd, is-gwmni sy'n llawn eiddo i'r Cyngor Cenedlaethol, ac felly, paratowyd ei gyfrifon ar gyfer 2001-02 ar sail busnes gweithredol. Paratowyd cyfrifon y tri cwmni TEC arall ar gyfer 2001-02 ar sail 'cyflawniad', oherwydd y caiff y cyrff hyn eu difodi ar ôl iddynt gwblhau unrhyw fusnes sydd ar ôl i'w gwblhau. Yna, caiff unrhyw falansau ariannol sy'n weddill, eu trosglwyddo'n ôl i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Dywedodd swyddogion y Cyngor Cenedlaethol wrthyf y byddai'r broses ddifodi yn cychwyn cyn diwedd 2002 ac y byddai'r broses yn cynnwys Cyngor TECs Cymru hefyd.

36. Mae nodyn 28 y cyfrifon yn esbonio nad yw'r Cyngor Cenedlaethol wedi cyfuno ei gyfran o asedau net 'Cyswllt Gwaith' i'r cyfrifon hynny, sef menter ar y cyd rhwng TEC Gogledd Cymru, WDA, y Cwmni Gyrfaoedd a'r awdurdodau lleol amrywiol yng Ngogledd Cymru. Ar 1 Ebrill 2001, trosglwyddwyd diddordeb TEC yn y fenter hon ar y cyd i'r Cyngor Cenedlaethol, ond nodaf bod hyn yn mynd yn groes i baragraff 4(3)(b) y Gorchymyn Trosglwyddo y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 13 yr adroddiad hwn. Roedd y Gorchymyn hwnnw'n nodi'n eglur na ddylai buddiannau o'r fath mewn mentrau ar y cyd gael eu trosglwyddo, ond dylent yn hytrach, barhau gyda'r cwmni TEC perthnasol.

37. O ganlyniad i'r trosglwyddo hwn, mae gan y Cyngor Cenedlaethol gyfran o un rhan o saith o asedau net 'Cyswllt Gwaith'. Ar 31 Mawrth 2002, mae cyfrifon y fenter, na chawsant eu harchwilio, yn dangos mai dim ond tua £15,000 oedd gwerth y cyfran hwn. Rwy'n fodlon nad yw'r weithred hon o beidio â chynnwys y balans hwn yng nghyfrifon y Cyngor Cenedlaethol, wedi cael unrhyw effaith ar fy marn archwilio 'safbwynt cywir a theg'. Fodd bynnag, argymhellaf y dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru gymryd camau priodol i reoleiddio safle'r Cyngor Cenedlaethol o ran y fenter hon ar y cyd cyn 31 Mawrth 2002.

***Paratoi cyfrifon***

38. Mae paragraff 14 Atodlen 4 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 yn gofyn i'r Cyngor Cenedlaethol gyflwyno cyfrifon wedi'u llofnodi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac Archwiliwr Cyffredinol Cymru erbyn 31 Awst yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol. Er bod y Swyddog Cyfrifyddu wedi cyflawni ei ymrwymiad statudol, mae wedi cydnabod nad oedd pob agwedd ar y cyfrifon wedi cael eu cwblhau ac y byddai angen gwneud addasiadau. Ffactor a gyfrannodd at hyn oedd bod ei staff wedi cael trafferthion gweithredol sylweddol wrth ddarparu cyfrifon drafft i Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru i'w harchwilio erbyn y dyddiad cau statudol ar ddiwedd mis Awst er mwyn i'r cyfrifon gael eu llofnodi. (Roedd yr amserlen paratoi cyfrifon a gytunwyd gyda'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn wreiddiol wedi galw i'r cyfrifon drafft fod ar gael i'w harchwilio ym mis Gorffennaf 2002.) O ganlyniad, tynnwyd y cyfrifon wedi'u llofnodi yn ôl, a pharatowyd cyfrifon diwygiedig ac fe'u hail-lofnodwyd gan y Swyddog Cyfrifydda ar 20 Rhagfyr 2002, ac fe'u hardystiwyd gennyf ar 9 Ionawr 2003.

39. Roedd y trafferthion a'r oedi hyn o ganlyniad i'r problemau sylweddol a gafodd y Cyngor Cenedlaethol wrth fynd ati i ffurfio set o gyfrifon o'r pum system gyfrifyddu gwahanol a etifeddwyd gan y cyrff a olynwyd, a hefyd oherwydd yr angen i gyfuno cyfrifon statudol 2001-02 pob TEC a Chyngor TECs Cymru. Dywedodd y Cyngor Cenedlaethol wrthyf ei fod yn hyderus y byddai'r drefn o gyflwyno cyfrifon i'w harchwilio yn y dyfodol, o ran bod yn amserol a chyflawn, lawer yn well. Caiff hyn ei hwyluso gan system gyfrifyddu newydd y Cyngor Cenedlaethol, sy'n cynnwys ei holl safleoedd, ac a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2002, ynghyd â'r broses o gwblhau'r gwaith o ad-drefnu'r swyddogaeth gyllid.

*Datganiad ar reolaeth fewnol*

40. Llywodraethir y gwaith o baratoi cyfrifon blynyddol y Cyngor Cenedlaethol gan y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag Atodlen 4 y Ddeddf Dysgu a Sgiliau. Mae'r Cyfarwyddyd hwn yn nodi ffurf a chynnwys y cyfrifon, gan gynnwys y gofyniad i'r Prif Weithredwr baratoi datganiad blynyddol ar system reolaeth fewnol y Cyngor.

41. Nodir cynnwys y Datganiad ar Reolaeth Fewnol mewn arweiniad a gyhoeddwyd gan y Trysorlys. Mae hwn yn nodi y dylai pob sefydliad yn y sector cyhoeddus gynnal gwerthusiad rheolaidd a thrylwyr o natur a graddau'r risgiau materol (ariannol ac eraill) y mae'n eu hwynebu. Yna, dylai geisio rheoli'r risgiau hynny trwy gynnal system reolaeth fewnol gadarn sy'n cefnogi'r broses o gyflawni polisïau, nodau ac amcanion y sefydliad. Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am adolygu pa mor ddigonol ac effeithiol yw system reolaeth fewnol sefydliad.

42. Yn ei Ddatganiad ar Reolaeth Fewnol, a gyhoeddir yng nghyfrifon y Cyngor Cenedlaethol, mae'r Prif Weithredwr wedi cydnabod bod y newidiadau sylfaenol y mae'r Cyngor wedi eu hwynebu yn ystod ei gyfnod cychwynnol, wedi arwain at risgiau busnes sylweddol. Mae'n nodi y paratowyd asesiad risg cynhwysfawr ym mis Ebrill 2001 fel y sail ar gyfer cynllunio newidiadau sefydliadol a blaenoriaethu ymateb y rheolwyr i'r risgiau busnes hynny. O'r asesiad hwnnw, nodwyd polisïau a gweithdrefnau ariannol fel maes allweddol a chynlluniwyd adolygiadau o weithdrefnau caffael a Rheoliadau Ariannol y Cyngor Cenedlaethol. Yn ogystal, dylanwadodd yr asesiad risg ar y gwaith o baratoi'r cynllun archwilio mewnol ar gyfer blwyddyn ariannol 2001-02, lle y nodwyd bod angen adolygu'r trefniadau caffael yn gynnar. Mae'r Datganiad ar Reolaeth Fewnol yn nodi'r angen parhaus i harmoneiddio'r trefniadau ar draws y sefydliad a sicrhau gweithredu effeithlon. Mae'n cyfeirio'n benodol hefyd at gamau gweithredu a gymrwyd gan y Cyngor Cenedlaethol hefyd i ymateb i'r gwendidau a nodwyd yn y dulliau rheoli wrth gaffael, yr wyf yn eu harchwilio ym mharagraffau 43 i 72 isod.

**Caffael**

***Cyflwyniad***

43. Ym mharagraff 31 uchod, cyfeiriais at yr her sylweddol y mae'r Cyngor Cenedlaethol yn ei hwynebu wrth gyfuno'r pum set wahanol o systemau ariannol a gweithredol ar 1 Ebrill 2001. Nodais hefyd benderfyniad y Cyngor i beidio â rhoi trefn ar y systemau hynny yn y tymor byr, er lles parhad y busnes ac er mwyn sicrhau na amharwyd ar y trefniadau ariannol a'r gwasanaethau a ddarperir i gyflenwyr addysg a hyfforddiant.

44. Wrth wneud ei benderfyniad i barhau i weithredu pum set o systemau cyfrifyddu a gweithredu, dywedodd swyddogion y Cynulliad wrthyf y byddai'r Cyngor Cenedlaethol wedi cymryd sicrwydd o archwiliad cynharach o'r systemau rheoli ariannol a weithredwyd gan y cyrff a

ragflaenwyd. Gwnaethpwyd hyn gan y 'Grŵp Strand Cyllid ac Ariannu' a gyfarfu yn ystod 2000-01 fel rhan o brosiect trosglwyddo cyffredinol y Cynllun Gweithredu Addysg a Hyfforddiant i ffurfio'r corff newydd (y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 6 yr adroddiad hwn). Sicrhaodd y Grŵp bod y systemau rheolaeth ariannol gwahanol a oedd yn weithredol yn y sefydliadau a olynwyd, yn cael eu hadolygu gan y Cyfarwyddwyr Cyllid (neu'r swyddogion cyfatebol) cyn trosglwyddo'r swyddogaethau. Yr amcan oedd profi a oedd unrhyw resymau pam na ellid trosglwyddo meysydd perthynol y busnes fel busnes gweithredol i'r Cyngor Cenedlaethol a chyrff olynol eraill. Nid nodi sut y dylid ymgorffori'r busnesau hyn i drefniadau rheoli'r cyrff olynol oedd y diben, oherwydd cydnabuwyd bod hyn yn fater i'r cyrff olynol eu hunain. Daeth y Grŵp, a oedd yn cynnwys swyddogion y Cynulliad, i'r casgliad fod dulliau rheoli digonol yn bodoli i ddiogelu uniondeb ariannol y sefydliadau a ragflaenwyd tan 31 Mawrth 2001. Yn ogystal, comisiynodd swyddogion y Cynulliad adroddiadau ar sefyllfa ariannol pob TEC, yr oedd y Cynulliad a'r Cyngor Cenedlaethol yn ystyried nad oeddent yn datgelu unrhyw broblemau sylweddol. O ganlyniad i'r gwaith hwn, ni gynhaliodd y Cyngor Cenedlaethol adolygiad manwl ar wahân o'r dulliau rheoli a gafodd eu cynnwys ym mhob un o'r pum set o systemau cyfrifyddu a gweithredu a etifeddodd, er mwyn pennu a oeddent yn ddigon cadarn i sicrhau o'r cychwyn cyntaf gwerth am arian, rheoleidd-dra a phriodoldeb y ffordd y defnyddiwyd cronfeydd cyhoeddus, er y cyfeiriwyd y rhaglen o waith archwilio mewnol a gymeradwywyd gan Bwyllgor Archwilio a Risg y Cyngor Cenedlaethol ym mis Gorffennaf 2001, i'r meysydd hyn o risg uchel.

45. Rwyf yn ystyried y byddai adolygiad o'r fath wedi bod yn arbennig o bwysig yn achos y TECs oherwydd gan eu bod yn gwmnïau preifat, nid oeddent yn gyfarwydd â'r fframwaith atebolrwydd y mae angen i sefydliadau'r sector cyhoeddus ei ddilyn a'r ffyrdd o weithio yn y sector cyhoeddus. Yn arbennig, nid oedd disgwyl iddynt gydymffurfio â gofynion 'Cyfrifydda Llywodraethol', ni ddynodwyd bod eu Prif Weithredwyr yn Swyddogion Cyfrifydda ac nid oedd unrhyw Femoranda Ariannol yn llywodraethu eu perthynas gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Er eu bod yn cael arian cyhoeddus ac yn ei wario, fel cwmnïau preifat, nid oedd yn rhaid i'w harchwilwyr allanol archwilio a darparu barn archwilio flynyddol ynghylch rheoleidd-dra eu gwariant.

***Gofynion caffael***

46. Roedd caffael nwyddau a gwasanaeth yn un maes lle'r oedd yr arfer yn amrywio rhwng y TECs. Nid oedd y contractau blynyddol rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru (a, chyn hynny, y Swyddfa Gymreig) a'r cwmnïau TEC cyn 1 Ebrill 2001, wedi cyfeirio'n benodol at gaffael, gan nodi'n syml bod gan y TECs "ddyletswydd cyffredinol i ddarparu gwerth am arian wrth wario'r holl arian a ddaw o'r Cynulliad ac ymgorffori gweithdrefnau tendro cystadleuol pan fo hynny'n briodol". Cynlluniwyd y gweithdrefnau gweithredol a bennwyd gan y TECs i sicrhau hyn trwy gyfrwng gofyniad cyffredinol i sicrhau trefniadau caffael cystadleuol sy'n uwch na throthwy penodol, a thrwy gyfrwng amrywiaeth o wahanol drefniadau ynghylch awdurdodi ac

amrywiadau caffael, megis tendrau unigol. Fodd bynnag, nid oedd tair o’r pedair set o weithdrefnau’n cyfeirio at y meysydd yn ymwneud ag estyn contractau a chydymffurfio â chyfarwyddebau caffael Ewropeaidd. Nodaf fod rheoliadau Ewropeaidd yn rhoi’r cyfrifoldeb ar gyrff cyhoeddus i hysbysu cwmnïau preifat megis y TECs o’r angen i gydymffurfio â’r cyfarwyddebau hyn pan fydd dros 50 y cant o’r arian a gânt bob blwyddyn yn dod o ffynonellau cyhoeddus.

47. Roedd y systemau a etifeddwyd o’r cyn Gyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru wedi delio â’r holl feysydd allweddol hyn yn ymwneud â chaffael er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â’r Memorandwm Ariannol a’r Datganiad Rheoli a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

48. Roedd y Memorandwm Ariannol a gyhoeddwyd i’r Cyngor Cenedlaethol ym mis Ebrill 2001, ynghyd ag arweiniad ategol a ddosbarthwyd i bob aelod o staff, yn gofyn i’r Cyngor Cenedlaethol gynnal yr un safonau rheoli ariannol â’r holl gyrff eraill a ariennir gan y Cynulliad, gan gynnwys cyn Gyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru. Ym maes caffael roedd y gofynion hyn yn cynnwys, er enghraifft:

- y dylid gosod contractau ar sail gystadleuol;
- y dylid derbyn y tendr sy’n cynnig y fantais economaidd fwyaf, oni bai bod rhesymau dros beidio â’i dderbyn;
- y dylai’r Cyngor Cenedlaethol gael caniatâd gan y Cynulliad cyn dyfarnu unrhyw dendr sy’n werth mwy na’r trothwy o £25,000; ac
- y dylai’r Cyngor Cenedlaethol arfarnu sefyllfa ariannol unrhyw gwmni neu gorff arall yr oedd yn bwriadu ymrwymo i gontract ag ef.

Rwyf yn cyfeirio at y cam a gymrwyd gan y Cyngor Cenedlaethol er mwyn ymateb i’r gofynion hyn ym mharagraff 64 yr adroddiad hwn.

***Canfyddiadau adolygiad yr Archwiliad Mewnol***

49. Ym mis Medi 2001, cychwynnodd Uned Archwilio Mewnol y Cyngor Cenedlaethol ar adolygiad o’r trefniadau caffael drwy’r Cyngor Cenedlaethol. Roedd yr adolygiad hwn yn rhan o raglen waith yr Uned Archwilio Mewnol a gynlluniwyd ar gyfer 2001-02, ac a gymeradwywyd gan y Swyddog Cyfrifyddu a’r Pwyllgor Archwilio a Risg, ac a seiliwyd ar asesiad o’r meysydd risg posibl yn system rheoli fewnol y Cyngor Cenedlaethol. Roedd yr adolygiad yn cynnwys ymateb i’r argymhellion a wnaethpwyd gan archwilwyr mewnol TEC De Ddwyrain Cymru (a oedd wedi nodi nifer fawr o achosion o gaffael tendrau unigol), a ddarparwyd i’r Cyngor Cenedlaethol ym mis Mehefin 2001. Ni welwyd gwendidau o’r fath

mewn gwaith mewnol neu allanol a gynhaliwyd yn flaenorol yng nghyn Gyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru.

50. Seiliwyd yr adolygiad ar archwiliad o sampl o gontractau a ddyfarnwyd gan y Cyngor Cenedlaethol er 1 Ebrill 2001 a oedd yn ymwneud â holl swyddfeydd y Cyngor. Wrth adrodd canlyniadau eu hadolygiad, daeth yr Uned Archwilio Mewnol i'r casgliad na allent ddarparu "*sicrwydd cadarnhaol bod system gaffael gyffredinol y Cyngor wedi bod yn ddigonol, yn ddibynadwy ac yn effeithiol yn ystod cyfnod yr adolygiad*". Yn fwy penodol, roedd yr Uned Archwilio Mewnol wedi nodi pedwar enghraifft yn y gwaith profi a wnaeth, lle'r oedd y Cyngor Cenedlaethol wedi gosod contractau o werth uchel heb gydymffurfio â'i fframwaith gaffael ei hun. Roedd enghreifftiau o beidio â chydymffurfio yn cynnwys methu â chael cymeradwyaeth y Cynulliad am weithredu sengl neu gyfyngol ynghylch tendr a methu â dilyn rheolau caffael yr Undeb Ewropeaidd. Yn ogystal, nododd yr adolygiad wendidau yn y broses o reoli contractau, yn arbennig monitro a rheoli costau.

51. Hysbyswyd Pwyllgor Archwilio a Risg y Cyngor o'r canfyddiadau hyn a chanlyniadau gwaith dilynol a gynhaliwyd gan yr Uned Archwilio Mewnol ar 4 Mawrth 2002 yn gyntaf, ac yna, fe'u cyflwynwyd i'r Cyngor llawn ar 21 Mawrth 2002, er mwyn iddo eu hystyried. Fe'm hysbyswyd gan y Prif Weithredwr ei fod wedi dweud wrth aelodau'r Cyngor am ganfyddiadau'r gwaith archwilio mewnol ym mis Chwefror 2002. Ar ôl ystyried y materion a godwyd, penderfynodd y Cyngor gomisiynu adolygiad annibynnol o'r methiannau yn y trefniadau caffael a nodwyd gan yr Uned Archwilio Mewnol. Ar 19 Ebrill 2002, penodwyd cwmni o gyfrifwyr o'r sector preifat, Bentley Jennison, yn dilyn ymarfer tendro cystadleuol i ymgymryd â'r gwaith hwn.

***Adroddiad Bentley Jennison***

52. Roedd y cylch gorchwyl a baratowyd ar gyfer Bentley Jennison yn gofyn i'r cwmni:

- "Gysylltu â'r [Pennaeth Archwilio Mewnol] er mwyn nodi contractau lle nodwyd bod amodau ynddynt wedi cael eu torri a oedd yn arwain at risg i'r Cyngor Cenedlaethol;
- "Ar gyfer pob un o'r rhain,...cynnal ymchwiliad nad yw'n ymwthiol o'r prosesau a'r gweithdrefnau a fabwysiadwyd,... nodi amgylchiadau a manylion yr achosion o dorri amod a nodwyd, a'r...camau yn y broses gontractau. Wrth ystyried ac adrodd ar y materion hyn,...ystyried yn llawn amgylchiadau'r achosion o dorri amod;
- "Pan fo'r gwaith o archwilio'r contractau unigol yn arwain at gasgliadau cyffredinol ar yr amgylchedd rheoli, gan gynnwys trefniadau llywodraethu a pherthynas rheoli, paratoi adroddiad pennawd o'r casgliadau hynny; a
- "Nodi ar ffurf crynodeb, pa gamau y cynghorir i'r Cyngor a'r Prif Weithredwr eu hystyried yng ngoleuni'ch casgliadau."

53. Adolygodd Bentley Jennison chwe chontract, gan gynnwys pedwar o'r rhai a gynhwyswyd yn Nhabl 1 yr adroddiad hwn. Wrth gynnal ei adolygiad, dibynnodd Bentley Jennison ar y wybodaeth a ddarparwyd iddo gan yr Uned Archwilio Mewnol, ac nid oedd yn rhaid iddo geisio nodi unrhyw achosion eraill o doramod wrth gaffael. Yn ogystal, cynhaliodd y cwmni ei adolygiadau ei hun o ddogfennau amrywiol.

54. Yn ei adroddiad i'r Cyngor a gyhoeddwyd ar 10 Mai 2002, nododd Bentley Jennison nifer o themâu cyffredin a nodwyd ganddo yn y chwe chontract a archwiliwyd ac awgrymodd y byddai angen ystyried y rhain ymhellach:

- **Ymwybyddiaeth o reolau –** er y byddai mwyafrif y staff wedi deall y gweithdrefnau a weithredwyd gan y sefydliadau a olynwyd, nid oedd ganddynt ymwybyddiaeth gyflawn o brif ofynion proses gaffael y sector cyhoeddus ac o ganlyniad, nid oeddent yn ymwybodol eu bod wedi methu â chydymffurfio â'r rheolau angenrheidiol;

- **Manylebion contractau –** ym mwyafrif yr achosion a archwiliwyd nid oedd manyleb y contract yn ddigon manwl, gan olygu ei bod yn bosibl ymestyn y gwaith i feysydd na ragwelwyd ar y cychwyn;

- **Rheoli prosiectau –** er y rheolwyd y cyllidebau adrannol cyffredinol, roedd y ffaith y methwyd â nodi gofynion a nodi union gostau unrhyw wyro o'r gwaith gwreiddiol yn golygu bod y gwaith o fonitro'r costau hyn yn erbyn cyllidebau contractau bron yn amhosibl;

- **Ymestyn contractau –** ar y cyfan, nid oedd staff yn ymwybodol o ofynion ymestyn contractau o gwbl, gan gynnwys yr angen i adolygu perfformiad y contractwr yn wrthrychol a chynnal asesiad ynghylch a fyddai'r cam o ymestyn yn cynnig gwerth am arian;

- **Pa mor ddigonol yw'r wybodaeth a ddarparwyd er mwyn cefnogi penderfyniadau –** pan oedd contractau'n cael eu gosod y tu allan i'r broses dendro arferol, roedd y cyfiawnhad ysgrifenedig ar gyfer pob achos yn ymwneud yn gyffredinol â'r angen i weithredu ar frys a bod y contractwr yn hysbys i'r Cyngor Cenedlaethol. Fodd bynnag, roedd y papurau hyn yn tueddu i beidio â chynnwys y costau a amcangyfrifwyd a fyddai'n gysylltiedig â phob contract wrth chwilio am awdurdodiad;

- **Deunydd briffio a baratowyd gan ymgynghorydd –** mewn dau achos, paratowyd manyleb y gwaith a'r amcan bris cyn y tendr gan y contractwr ar ôl iddo ymgynghori â swyddogion y Cyngor Cenedlaethol, yn hytrach na gan y Cyngor Cenedlaethol ei hun, ac felly nid oedd y broses yn ddigon annibynnol.

- **Trothwy awdurdodi –** ni ddefnyddiwyd y rhain bob amser. Er bod mwyafrif y contractau a archwiliwyd yn gofyn am ganiatâd y Prif Weithredwr ymlaen llaw, ni chofnodwyd cymeradwyaeth o'r fath mewn dogfennau; a

- **Llythyron contract –** nid oedd y rhain bob amser yn nodi gwerth y contract, gan olygu y gallent arwain at gostau ychwanegol neu annisgwyl i'r sefydliad.

***Camau a gymerwyd gan Gyngor y Cyngor Cenedlaethol***

55. Ar 16 Mai 2002, ystyriodd y Cyngor Cenedlaethol adroddiad Bentley Jennison mewn sesiwn gaeëdig. Yng ngoleuni canfyddiadau'r adroddiad, penderfynodd y Cyngor y dylid penodi Swyddog Ymchwilio annibynnol i ystyried yn fanwl a oedd angen cymryd unrhyw gamau pellach ynghylch unrhyw rai o staff y Cyngor Cenedlaethol a fu'n ymwneud â'r achosion amrywiol o doramod a archwiliwyd gan yr Uned Archwilio Mewnol a Bentley Jennison. Yn ogystal, trefnodd y Cyngor gyfarfod arbennig ar 24 Mai 2002 i gadarnhau'r Gorchmynion Sefydlog a chymeradwyo Rheoliadau Ariannol interim ar gyfer y Cyngor Cenedlaethol, ynghyd ag amserlen o awdurdodau ariannol wedi'u dirprwyo, gan benderfynu y dylai hyfforddiant mewn gweithdrefnau caffael fod yn ofyniad gorfodol i bob aelod o staff sydd â chyfrifoldebau'n ymwneud â chadw cyllideb.

56. Gorffennodd y Swyddog Ymchwilio, a oedd yn gweithio i gwmni cyfreithiol o Fanceinion, ei adolygiad ar 3 Medi 2002 a chyflwynodd ei ganfyddiadau a'i argymhellion i Banel Disgyblu a ffurfiwyd gan y Cyngor, ac a oedd yn cynnwys Cadeiryddion Pwyllgorau Adnoddau Dynol y Cyngor Cenedlaethol a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Ystyriodd y Panel ganlyniadau gwaith y Swyddog Ymchwilio yn ofalus, ac o ganlyniad, trefnwyd gwrandawiadau disgyblu ar gyfer pedwar aelod o staff y Cyngor Cenedlaethol a ddaeth i ben ym mis Tachwedd 2002.

***Ymgeisio am ganiatâd ôl-weithredol***

57. Yng ngoleuni canfyddiadau'r Archwiliad Mewnol a oedd yn dod i'r amlwg, ym mis Ionawr 2002, penderfynodd y Prif Weithredwr gynnal adolygiad o gontractau a threfniadau caffael ar draws y sefydliad cyfan ers 1 Ebrill 2001. Roedd yn rhaid i bob cyfarwyddwr gweithredol sicrhau cydymffurfiaeth â'r gweithdrefnau caffael yn y meysydd yr oeddent yn gyfrifol amdanynt. Unodwyd achosion ychwanegol gan yr adolygiad lle y dylid fod wedi cael caniatâd ymlaen llaw gan y Cynulliad Cenedlaethol am un weithred yn ymwneud â thendr. Ym mis Ebrill 2002, ysgrifennodd Cyfarwyddwr Cyllid y Cyngor Cenedlaethol at adran noddi'r Cyngor yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ofyn am gymeradwyaeth ôl-weithredol am 13 contract lle y cymerwyd cam sengl neu gyfyngedig ar dendr. Gwnaethpwyd cais pellach ym mis Mai 2002 yn ymwneud â thri achos ychwanegol, gan arwain at gyfanswm o 16. Ym mhob achos, roedd y Cyngor Cenedlaethol wedi gweithredu y tu hwnt i'r awdurdod a ddirprwywyd iddo gan y Cynulliad, er bod y gwariant perthnasol wedi cael ei wneud wrth i'r Cyngor Cenedlaethol ymestyn contractau a drosglwyddwyd o'r TECs ar 1 Ebrill 2001 mewn tri achos. Roedd fy archwiliad o gyfrifon 2001-02 y Cyngor Cenedlaethol yn nodi tri achos pellach lle'r oedd angen cael cymeradwyaeth ôl-weithredol y Cynulliad er mwyn ymestyn contract ar sail tendr sengl. Cyfeiriwyd yr achosion hyn, ynghyd ag achos pellach o ymestyn contract a

ddigwyddodd ym mis Gorffennaf 2002, i'r Cynulliad ym mis Hydref 2002, gan godi cyfanswm y ceisiadau i 20. Ym mis Tachwedd 2002, darganfuwyd bod un contract ychwanegol a ddyfarnwyd gan y Cyngor Cenedlaethol ym mis Medi 2001, yn mynd yn groes i gyfarwyddebau caffael Ewropeaidd, gan arwain at gyfanswm o 21 contract.

58. Mae **Tabl 1** yn dangos gwerth a diben y 21 contract hwn, y sail ar gyfer angen caniatâd ôl-weithredol y Cynulliad, a phenderfyniad terfynol Swyddog Cydymffurfio'r Cynulliad ar bob un.

**Tabl 1: Contractau y bu'n rhaid i'r Cyngor Cenedlaethol gael cymeradwyaeth ôl-weithredol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn eu cylch**

| Contract | Diben y contract (* = contract wedi'i archwilio gan adolygiadau'r Uned Archwiliad Mewnol a Bentley Jennison) | Dyddiad y dyfarnwyd y contract | Gwerth (£) (a): Gwirioneddol (e): Terfynol ac Amcangyfrifedig | Methiannau yn y System (gweler yr allwedd isod) | Cymeradwyaeth ôl-weithredol wedi cael ei roi gan CCC (✓/X) | Gwariant afreolaidd (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Proses baratoi'r Cynllun Corfforaethol a'r Strategaeth Gorfforaethol | Medi 2001 | 29,000 (e) | A, D | **X** | 29,000 |
| 2 | * Ad-drefnu'r sefydliad a gostwng y costau rhedeg | Hydref 2001 | 430,872 (a) | B, C, D | **X** | 430,872 |
| 3 | Datblygu meddalwedd mewnol | Ebrill 2001 | 31,000 (a) | A, F, G, H | ✓ | 0 |
| 4 | * Adolygiad Strwythuro Gwobrau, Safle yn y Farchnad a Job Sizing | Ebrill 2001 | 152,768 (a) | C, D | **X** | 152,768 |
| 5 | * System Ariannu Genedlaethol | Tachwedd 2001 | 242,283 (e) | B, C | **X** | 242,283 |
| 6 | * Rheoli Rhaglen y Gronfa Ddatblygu ac Arloesi | Rhagfyr 2001 | 106,509 (a) | A, F | **X** | 106,509 |
| 7 | System Olrhain Hyfforddeion MAYTAS | Mehefin 2001 | 82,988 (a) | A, H | ✓ | 0 |
| 8 | Marchnata | Ebrill 2001 | 18,000 (e) | I | **X** | 18,000 |
| 9 | Marchnata a chyfranogi: datblygu gwefan | Ebrill 2001 | 42,300 (a) | A, D | **X** | 42,300 |
| 10 | Hysbysebu trwy ddarlledu | Trwy gydol 2001-02 | 27,000 (a) | A, F, H | ✓ | 0 |
| 11 | Hysbysebu | Gorffennaf 2001 | 112,000 (e) | A, H | ✓ | 0 |
| 12 | Hysbysebu | Trwy gydol 2001-02 | 108,000 (a) | A, F, H | ✓ | 0 |
| 13 | Hysbysebu (trwy gyfrwng asiantaeth prynu yn y cyfryngau) | Awst 2001 | 596,000 (a) | B, C, D, E | **X** | 596,000 |
| 14 | Recriwtio staff asiantaeth 1 | Ebrill 2001 | 198,000 (e) | A, F, H | ✓ | 0 |
| 15 | Recriwtio staff asiantaeth 2 | Medi 2001 | 61,000 (e) | A, F, H | ✓ | 0 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 16 | System TG | Chwefror 2001 | 73,825 (a) | A, D | **X** | 73,825 |
| 17 | Prydles weithredol ar gyfer peiriannau llun-gopïo | Awst 2001 | 208,453 (e) | B,C,D,E | **X** | 208,453 |
| 18 | Gwasanaethau cyfreithiol proffesiynol | Ebrill 2001 | 62,454 (e) | A,H,I | **X** | 62,454 |
| 19 | Darparu mynediad i'r rhyngrwyd 1 | Gorffennaf 2001 | 28,740 (a) | A | **X** | 28,740 |
| 20 | Darparu mynediad i'r rhyngrwyd 2 | Gorffennaf 2002 (ac felly nad yw'n perthyn i gyfnod y cyfrif) | 25,850 (e) | E | **X** | 25,850 |
| 21 | Marchnata a chyfathrebu | Medi 2001 | 226,400 (e) | C,D | **X** | 226,400 |

**Allwedd**

| | |
|---|---|
| ***Diffyg cydymffurfio â rheoliadau caffael*** | |
| A | Gweithredu tendr sengl sy'n mynd y tu hwnt i'r awdurdod a ddirprwywyd i'r Cyngor Cenedlaethol heb gael cymeradwyaeth y Cynulliad ymlaen llaw |
| B | Gweithdrefn tendr cyfyngedig (llai na thri tendr effeithiol) heb gael cymeradwyaeth y Cynulliad ymlaen llaw |
| C | Cyfarwyddebau caffael Ewropeaidd na chydymffurfiwyd â hwy. |
| D | Cyfanswm y gwariant ar ôl cwblhau'r contract -sy'n uwch na'r cyfanswm a gymeradwywyd |
| E | Ymestyn cylch gorchwyl y contract gwreiddiol heb gael caniatâd ymlaen llaw |
| F | Rhannu contract (methu â chronni gwariant mewn un contract trwy ddefnyddio archebion prynu lluosog llai) |
| ***Gwendidau wrth reoli contractau*** | |
| G | Y broses benderfynu heb gael ei nodi'n ddigonol mewn dogfen |
| H | Gwerth y contract a gymeradwywyd / cyllidebwyd heb gael ei nodi |
| I | Ymrwymiad agored oherwydd na nodwyd dyddiad terfynu yn y contract |

59. O'r 21 contract, sy'n werth £2.863 miliwn, ni roddodd y Cynulliad gymeradwyaeth ôl-weithredol i 14 ohonynt, a oedd yn werth £2.243 miliwn, ac sydd felly'n afreolaidd. Roedd pob un o'r contractau hyn, ac eithrio un ohonynt, (contract 20 yn y Tabl, am tua £26,000) yn berthnasol i gyfnod y cyfrifon.

60. Nodaf, fodd bynnag, fod yr 21 contract hwn yn cynnwys y rhai lle'r oedd rheoleiddio yn fater yn unig. Nid wyf wedi ceisio archwilio unrhyw un o gontractau'r Cyngor Cenedlaethol a oedd yn cynrychioli gwerth da am arian i'r pwrs cyhoeddus. Mae hyn oherwydd nad yw archwiliadau gwerth am arian o'r fath yn rhan o'm harchwiliad ariannol o'r cyfrifon, a gyflawnir yn unol â safonau archwilio'r Deyrnas Unedig ac a bennir gan y Bwrdd Safonau Archwilio.

61. Dywedodd y Cyngor Cenedlaethol wrthyf fod y gwaith a gafodd ei gaffael, yn hanfodol yn ei ymdrech i ddatblygu ei agenda a'i fod wedi bod o werth a brys mawr mewn meysydd pwysig o'i fusnes a'i drefniadau. Ystyriodd ei fod wedi ceisio sicrhau gwerth am arian trwy lwyddo i ostwng costau contractwyr a thrwy sicrhau gostyngiadau mewn costau hysbysebu trwy ddefnyddio asiantaeth prynu yn y cyfryngau. Er gwaethaf y gostyngiadau yng nghostau rhedeg y Cyngor Cenedlaethol, roedd y sefydliad yn bwriadu clustnodi mwy o adnoddau i feysydd rheoli a gwerthuso prosiectau.

***Adolygiad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru***

62. Ar 20 Mai 2002, oherwydd y pryderon a godwyd ymhlith swyddogion y Cynulliad gan geisiadau am gymeradwyaeth ôl-weithredol, comisiynodd yr Ysgrifennydd Parhaol adolygiad o'r amgylchedd rheoli cyffredinol yn ELWa. Cynhaliwyd yr adolygiad hwn, a oedd yn delio â'r Cyngor Cenedlaethol a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, gan Adam Peat, un o uwch swyddogion y Cynulliad, ac roedd yn canolbwyntio ar bum maes allweddol:

- caffael;
- gweithdrefnau ariannol;
- archwilio mewnol;
- y trefniadau ynghylch dirprwyo swyddogaethau; a
- pha mor ddigonol oedd y wybodaeth ariannol a rheoli.

63. Cynhaliwyd adolygiad y Cynulliad yn gyflym ac adroddodd i'r Ysgrifennydd Parhaol ar 31 Mai 2002. Roedd yn cydnabod y sialensiau yr oedd y Cyngor Cenedlaethol, y Prif Weithredwr, ei dîm rheoli a'i staff, yn eu hwynebu, gan nodi bod llawer o waith wedi cael ei wneud yn ystod 2001-02, gan gynnwys bodloni nifer fawr o'r targedau penodol a osodwyd ar gyfer y Cyngor. Yn ogystal, cyfeiriodd yr adolygiad at y gofyniad i sicrhau arbedion sylweddol flwyddyn ar ôl blwyddyn o ran y costau rhedeg, ynghyd â'r angen i greu sefydliad unedig a oedd yn cynnwys strwythur staff at y diben hwnnw ac roedd hyn yn golygu bod y Prif Weithredwr yn wynebu tasg sylweddol iawn o ddatblygu'r sefydliad.

64. Roedd adroddiad y Cynulliad yn rhoi crynodeb o'r camau a gymerwyd gan y Cyngor yn ystod 2001-02 i atgyfnerthu'r amgylchedd rheoli cyffredinol. Roedd y rhain yn cynnwys penodi Rheolwr Caffael, a fu'n gyfrifol am baratoi set unedig o weithdrefnau caffael ar gyfer y Cyngor Cenedlaethol a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Nododd yr adroddiad yr ymgorfforwyd y gweithdrefnau unedig hyn ym mis Ionawr 2002 ac y darparwyd hyfforddiant i bob aelod o staff yr oedd ganddynt rôl ym maes caffael. Dywedodd hefyd bod yr achosion o dorri amodau'r gweithdrefnau caffael a nodwyd gan yr Adolygiad Archwilio Mewnol wedi digwydd cyn ymgorffori'r gweithdrefnau cyfunol hyn. Roedd tystiolaeth bod staff ELWa yn gwneud defnydd da o'r arbenigedd a ddarparwyd gan y Rheolwr Caffael.

65. Wrth wneud sylwadau penodol ar yr amgylchedd rheoli yn y pum maes a archwiliwyd, daeth adroddiad y Cynulliad i'r casgliadau canlynol:

- Ar **gaffael** – bod yr amgylchedd rheoli cyfredol yn gadarn;
- Ar **weithdrefnau ariannol –** bod dulliau rheoli ariannol wedi symud ymlaen trwy ganoli'r swyddogaeth ariannol a chymeradwyo rheoliadau ariannol cyfunol am y tro;
- Ar **archwilio mewnol –** bod gan ELWa swyddogaeth archwilio fewnol weithredol, y mae'n ymddangos bod ei gweithgareddau yn cynnwys blaenoriaethau, adnoddau a goruchwyliaeth briodol;
- Ar **ddirprwyo swyddogaethau –** bod y Cyngor Cenedlaethol bellach wedi pennu gweithrediadau'r Bwrdd ar gyfer y dyfodol, y graddau y mae wedi dirprwyo ei swyddogaethau i'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr, a rôl ei bwyllgorau; ac
- Ar **wybodaeth ariannol a rheoli** – bod ansawdd y systemau gwybodaeth ariannol a pherfformio a etifeddwyd gan y Cyngor Cenedlaethol yn amrywiol, ac o ganlyniad roeddent yn llai na boddhaol at ddibenion y sefydliad newydd, ond bod llawer o gynnydd wedi cael ei wneud erbyn hyn, a bod y Cyngor a'i Bwyllgor Gweithredol yn canolbwyntio ar yr angen i sicrhau gwelliant parhaus ym maes gwybodaeth rheoli.

Casgliad cyffredinol adroddiad y Cynulliad oedd *"nad oes unrhyw wendidau amlwg yn yr amgylchedd rheoli yn ELWa ar hyn o bryd".*

66. Tra'n cydnabod y gwelliannau a wnaethpwyd i amgylchedd rheoli'r Cyngor eisoes, gwnaeth adroddiad y Cynulliad argymhellion penodol y dylai'r Cyngor ymestyn ei weithdrefnau caffael unedig er mwyn cynnwys, er enghraifft, arweiniad ar wrthdaro o ran buddiannau, ac y dylai'r Cyngor Cenedlaethol a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru fabwysiadu'r un rheoliadau ariannol.

67. Cyflwynodd y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes ddatganiad gerbron Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes y Cynulliad ar 22 Mai 2002 ynghylch y materion yn ymwneud â'r amgylchedd rheoli yn y Cyngor Cenedlaethol. Darparwyd copi o adroddiad y Cynulliad a'r ohebiaeth berthnasol i aelodau'r Pwyllgor ar 26 Mehefin 2002.

***Camau i ddatrys y sefyllfa***

68. Dywedodd y Cyngor Cenedlaethol wrthyf y derbyniwyd yr holl argymhellion yn adroddiad y Cynulliad a'u bod yn cael eu hymgorffori'n llawn. Mae cydymffurfiaeth y staff â'r gweithdrefnau caffael wedi cael ei fonitro gan Uned Archwilio Mewnol y Cyngor Cenedlaethol mewn adolygiad dilynol a gychwynnwyd ym mis Mehefin 2002. Bydd Pwyllgor Archwilio a Risg y Cyngor Cenedlaethol yn adolygu'r gweithdrefnau hyn yn rheolaidd. Dywedodd y Cyngor Cenedlaethol wrthyf hefyd ei fod yn ychwanegu cyfarwyddiadau desg manwl at ei Reoliadau Ariannol newydd er mwyn delio â'r prosesau cyfrifyddu ariannol ac eithrio caffael, lle y mae'n ystyried bod cyfarwyddiadau cynhwysfawr eisoes yn bodoli. Mae'r Cyngor Cenedlaethol yn disgwyl cwblhau'r broses hon erbyn diwedd Ionawr 2003.

69. O ran yr 17 achos caffael arall a nodwyd yn Nhabl 1 na ystyriwyd gan y Swyddog Ymchwilio a Phanel Disgyblu'r Cyngor (y mae paragraff 56 yn cyfeirio ato), mae'r rhain wedi cael eu hadolygu'n annibynnol gan Bennaeth Archwilio Mewnol y Cyngor ers hynny. Roedd ei adolygiad yn ymgorffori'r egwyddorion a'r cynsail a bennwyd gan y Swyddog Ymchwilio fel y sail ar gyfer pennu a fu tystiolaeth *prima facie* o achosion eraill o ddiffyg disgyblaeth. Casglodd yr adolygiad nad oedd yr arferion caffael yn cydymffurfio â'r safonau a ddisgwyliwyd mewn Corff Cyhoeddus dan Nawdd y Cynulliad. Fodd bynnag, hysbysodd y Pennaeth Archwilio Mewnol y Swyddfa Archwilio Genedlaethol nad oedd unrhyw achosion o ddiffyg disgyblaeth wedi digwydd yn ei farn ef, a'i fod yn ystyried bod y swyddogion wedi ymddwyn, yn ôl eu dealltwriaeth orau, er lles y busnes. Dywedodd Prif Weithredwr y Cyngor Cenedlaethol wrthyf ei fod yn cyd-fynd â'r farn hon.

***Casgliad ACC: Ar gaffael a rheolaeth ariannol***

70. Mae'n destun pryder pan fo corff sy'n gweithredu ar ran y cyhoedd yn dangos y diffygion a adroddwyd yn y Cyngor Cenedlaethol yn ystod ei flwyddyn gyntaf. Mae'r methiannau a'r gwendidau a nodir yn yr adroddiad hwn yn mynd y tu hwnt i ddyfarnu contractau unigol ac maent yn cynnwys y gwaith o reoli prosiectau a'r risgiau posibl wrth sicrhau gwerth da am arian. Mae gweithdrefnau caffael cadarn yn elfen sylfaenol o gyflawni busnes cyhoeddus yn y ffordd briodol, ac ystyriaf fod y gwendidau yn y gweithdrefnau a etifeddwyd gan y Cyngor Cenedlaethol oddi wrth gwmnïau TEC yn faterion y dylai'r rheolwyr fod wedi mynd i'r afael â nhw o'r cychwyn cyntaf.

71. Er gwaethaf y trafferthion o baratoi cyfrifon ar sail cyfunol, rwyf yn bryderus hefyd ynghylch anallu'r Cyngor Cenedlaethol i ddarparu drafft cyflawn o'r cyfrifon er mwyn i Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru eu harchwilio tan ychydig cyn y dyddiad cau statudol sef 31 Awst, i'r cyfrifon hynny gael eu llofnodi gan y Swyddog Cyfrifyddu. O ganlyniad, rhaid oedd tynnu'r cyfrifon wedi'u llofnodi yn ôl a pharatoi ac ail-lofnodi cyfrifon diwygiedig. Disgwyliaf i'r Cyngor Cenedlaethol gyflawni ei ymrwymiad er mwyn osgoi hyn rhag digwydd eto.

72. Rwy'n cydnabod bod camau cywirol wedi cael eu cymryd erbyn hyn gan reolwyr y Cyngor Cenedlaethol i gryfhau ei weithdrefnau a'i ddulliau rheoli ariannol. Ond yn ystod blwyddyn gyntaf y Cyngor Cenedlaethol, nid yw wedi gallu dangos ei fod yn sicrhau gwerth da am arian ym mhob achos. Cynigiaf adolygu'r broses o ymgorffori'r gwelliannau rheoli a gyflwynwyd gan y Cyngor Cenedlaethol fel rhan o'm harchwiliad o gyfrifon 2002-03 y Cyngor, ac mae staff y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn parhau i gynnig cyngor a chymorth ar arfer gorau i swyddogion y Cyngor Cenedlaethol.

**Defnyddio cymal cyfrinachedd mewn taliad setlo i gyn Brif Weithredwr TEC**

73. Setlodd yr aelodau uwch hynny o staff TECs na chafodd waith gyda'r Cyngor Cenedlaethol, ar drefniadau colli gwaith gyda'r TECs ar 31 Mawrth 2001 neu cyn hynny.

74. Cynigiwyd contract 12 mis tymor byr i gyn Brif Weithredwr TEC Gogledd Cymru, Mr Anthony Drew, gan y Cyngor Cenedlaethol, i gychwyn ar 1 Ebrill 2001. Dywedodd y Cyngor Cenedlaethol wrthyf mai diben ei benodi oedd cynorthwyo'r cyfnod trosglwyddo i'r corff newydd, oherwydd y bylchau ar y dechrau yn y staff uwch a'r angen i sicrhau parhad y busnes. Yn hytrach na derbyn taliad colli gwaith gan TEC ar 31 Mawrth 2001, cytunwyd y byddai Mr Drew yn colli ei waith gyda'r Cyngor Cenedlaethol ar 31 Mawrth 2002, ac y byddai'n cael taliad iawndal colli gwaith gan y Cyngor Cenedlaethol yn unol â'r un amodau bras a oedd yn berthnasol i staff y TECs.

75. Dywedodd y Cyngor Cenedlaethol wrthyf mai Mr Drew oedd wedi gwneud y cais hwn, oherwydd ei bryder na ddylai'r cyhoedd ystyried o gwbl ei fod wedi elwa'n faterol ar yr amodau yr oedd hawl ganddo iddynt yn flaenorol gan y TEC. Yn ogystal, ceisiodd y Cyngor sicrhau na fyddai Mr Drew dan anfantais o dderbyn gwaith pellach am ddeuddeg mis. Gofynnwyd am gymeradwyaeth y Cynulliad yn hyn o beth, ac fe'i chafwyd, yn unol â Memorandwm Ariannol y Cyngor Cenedlaethol.

76. Fel y digwyddodd hi, penderfynodd y Cyngor Cenedlaethol yn nes ymlaen, am resymau gweithrediadol, i derfynu gwaith Mr Drew ar 31 Rhagfyr 2001, rhyw dri mis cyn diwedd ei gontract. Nodwyd amodau ei drefniadau setlo dilynol oherwydd colli gwaith mewn 'Cytundeb Cyfaddawd' rhwng y Cyngor Cenedlaethol a Mr Drew. Gan ymateb i gyngor cyfreithwyr y Cyngor Cenedlaethol, roedd y cytundeb cyfreithiol hwn yn cynnwys cymal a oedd yn gofyn i Mr Drew gadw amodau'r cytundeb yn hollol gyfrinachol a pheidio â datgelu'r amodau i unrhyw drydydd parti nad oedd ganddynt ddiddordeb cyfreithiol yn y mater. (Roedd y cytundeb hwn yn rhestru Cyllid y Wlad, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol fel enghreifftiau o drydydd parti oedd â diddordeb cyfreithiol.) Nid yw'r cymal yn atal y Cyngor rhag datgelu amodau a thelerau'r trefniadau setlo â Mr Drew.

77. Mae Pwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ystyried defnyddio 'cymalau cyfrinachedd' yng nghytundebau setlo wrth adael, o'r blaen. Yn ei adroddiad ar Amgueddfa ac Orielau Cenedlaethol Cymru, '*Adroddiad ar daliadau afreolaidd a wnaethpwyd i gyn Gyfarwyddwr Cynorthwyol Amgueddfa ac*

*Orielau Cenedlaethol Cymru*', a gyhoeddwyd ym mis Mai 2000, nododd y Pwyllgor na ddylai "*achosion o'r fath pan fo rhywun yn gadael, gynnwys cymalau cyfrinachedd".* Ym marn y Pwyllgor, nid yw'r arfer hwn yn caniatáu'r dull gweithredu agored a thryloyw sy'n angenrheidiol yn y sector cyhoeddus a gellid ei gyfiawnhau'n unig mewn amgylchiadau eithriadol lle y gellir, er enghraifft, cyfiawnhau trefniadau amddiffyn cyfrinachedd masnachol yn llawn. Gan ymateb i adroddiad y Pwyllgor Archwilio, derbyniodd y Cabinet y safle hwn.

78. Mae fy staff wedi dwyn sylw'r Cyngor Cenedlaethol i argymhelliad y Pwyllgor, sydd wedi fy hysbysu ers hynny ei fod yn derbyn barn y Pwyllgor yn llawn ac yn cydnabod ei esgeulustod yn hyn o beth. Dywedodd y Prif Weithredwr wrthyf ei fod yn bwriadu ysgrifennu at Mr Drew i'w ryddhau o'r ymrwymiad a orfodwyd arno yn y cytundeb. Rwyf yn fodlon bod Mr Drew wedi ymddwyn yn y ffordd gywir trwy gydol y mater hwn.

79. Roedd amodau'r cytundeb rhwng y Cyngor Cenedlaethol a Mr Drew yn cyd-fynd ag amodau ei gyflogaeth ar yr adeg y trosglwyddodd o'r TEC, ac roedd yn cynnwys y nodweddion canlynol:

- Defnydd parhaus gan Mr Drew, dan amodau cynllun cerbydau cwmni TEC, o'i gerbyd cwmni y telir ei gostau'n llawn (Land Rover Discovery V8, S-registration) tan 31 Mawrth 2002;

- Y Cyngor Cenedlaethol i dalu costau ffôn busnes Mr Drew ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ionawr a 31 Mawrth 2002;

- Cytundeb gan y Cyngor Cenedlaethol i werthu cerbyd cwmni Mr Drew iddo am swm gwarantedig o £9,500 (a gytunwyd gan y ddwy ochr i fod yn cyfateb â'i werth ar y farchnad ar 31 Rhagfyr 2001), y mae'r dewis hwn ar gael i Mr Drew tan 7 Ebrill 2002;

- Y Cyngor Cenedlaethol i dalu gwasanaeth cwnsela gosod allan ar gyfer Mr Drew, gweithiwr ar gontract 12 mis cyfnod penodol, hyd at uchafswm o £2,000; a'r

- Y Cyngor Cenedlaethol i dalu costau cyfreithiol Mr Drew ar gyfer unrhyw waith yn ymwneud â'r Cytundeb Cyfaddawd, hyd at uchafswm o £500.

Dywedodd y Cyngor Cenedlaethol wrthyf y trafodwyd yr amodau hyn gyda Mr Drew fel rhan o'r broses o derfynu ei gontract yn gynnar, ar ôl cwblhau'r prosiectau trosglwyddo y cafodd ei gyflogi i'w gwneud. Yn ogystal, dywedodd y Cyngor Cenedlaethol wrthyf fod Mr Drew wedi cael ei dalu am gyfnod llawn ei gontract.

80. Fel rhan o'r broses barhaus o ailstrwythuro'r sefydliad ers 1 Ebrill 2002, mae'r Cyngor Cenedlaethol wedi cwblhau rhan sylweddol o raglen lle roedd 104 o weithwyr yn colli eu gwaith. Mae Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru wedi nodi y seiliwyd y cytundeb setlo colli gwaith a gytunwyd gyda phob gweithiwr ar dempled 'Cytundeb Cyfaddawd' generig, a oedd unwaith eto yn cynnwys cymal cyfrinachedd. Dywedodd y

Cyngor Cenedlaethol wrthyf fod ei Brif Weithredwr yn bwriadu ysgrifennu at y cyn weithwyr hyn hefyd er mwyn eu rhyddhau o ymrwymiadau'r cymal cyfrinachedd hwn. Bwriadaf adolygu'r rhaglen colli gwaith hon yn fanwl fel rhan o'm harchwiliad o gyfrifon 2002-03 y Cyngor Cenedlaethol, a byddaf yn ystyried ar yr adeg hwnnw a ddylid codi unrhyw faterion pellach gyda phwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn nes ymlaen.

*John Bourn*
Archwiliwr Cyffredinol Cymru

3-4 Park Place
Caerdydd CF10 3DP

9 Ionawr 2003